# Canllawiau i awdurdodau lleol yng Nghymru ar weithredu mesurau i fynd i'r afael â cherbydau sy'n segura'n ddiangen

ISBN: 978-1-80853-310-5

## Cynnwys


Geirfa ... 3

**Rhagair** ... 6

**Cyflwyniad a diben y canllawiau** ... 6

Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn ... 6

Cyflwyniad cyflym i awdurdodau lleol ... 7

Cyflwyniad ... 7

**Safonau'r Gymraeg** ... 8

Diben y canllawiau ... 9

**Beth yw segura llonydd?** ... 10

Y mathau o gerbydau sy'n gymwys ... 11

Lleoliadau nodweddiadol lle mae cerbydau yn segura ... 12

Lleoliadau risg uchel ... 13

Rhesymau cyffredin dros segura ... 15

**Pam mae mynd i'r afael â segura yn bwysig?** ... 16

Ffeithiau am Segura Llonydd ... 16

Effeithiau ar Iechyd a'r Amgylchedd ... 17

**Segura llonydd a'r gyfraith** ... 22

Deddfwriaeth ... 22

Esemptiadau ... 23

Ystod cosbau ... 23

Defnyddio enillion net ... 24

**Pennu symiau'r gosb benodedig** ... 24

Un Swm ar gyfer Gosb Benodedig ... 24

Symiau gwahanol ar gyfer cosbau penodedig ... 24

Pennu amgylchiadau / lleoliadau ... 27

Cyhoeddi graddfeydd cosb lleol ... 27

Rhoi gwybod am broblem segura llonydd ... 28

**Gorfodi cosbau penodedig ar gyfer troseddau segura llonydd** ... 28

Tîm gorfodi ... 28

Hysbysiadau cosb benodedig ... 29

Cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ... 29

Beth ddylai'r hysbysiad cosb benodedig ei gynnwys ... 30

Cadw cofnodion .... 30
Methiant i dalu .... 31
Tynnu hysbysiad cosb benodedig yn ôl .... 31
**Cymorth sydd ar gael i awdurdodau lleol** .... 31
**Adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael â'r broblem** .... 32
Mentrau ac ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol .... 32
Atebion ffisegol .... 33
Grwpiau ymgyrchu a sefydliadau cymorth .... 34
Atodiad 1. Enghreifftiau o fentrau gwrth-segura o bob cwr o'r DU .... 36
Atodiad 2. Dulliau a negeseuon ymgyrchu .... 43
Atodiad 3. Datganiad polisi gwrth-segura at ddefnydd busnesau .... 47
Atodiad 4. Taflen i rieni a gofalwyr plant ysgol .... 48
Atodiad 5. Templed arsylwadau ysgol .... 49
Atodiad 6. Enghraifft o hysbysiad ar gyfer cylchlythyr ysgol .... 50
Atodiad 7. Templed datganiad i Lywodraeth Cymru .... 52
Atodiad 8. Dolenni i ragor o adnoddau (DU a rhyngwladol) .... 55

# Geirfa

| **Term** | **Ystyr** |
|---|---|
| Ardal Rheoli Ansawdd Aer | Ardal lle mae awdurdod lleol yn datgan bod lefelau llygredd aer yn uwch, neu'n debygol o fod yn uwch, na'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol a bennwyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd. |
| Awdurdod lleol | Cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau lleol, gan gynnwys gweithgareddau iechyd yr amgylchedd a gorfodi perthnasol. |
| Cerbyd hybrid | Cerbyd sy'n defnyddio injan tanio mewnol a modur trydan. Gall y cerbyd gynhyrchu allyriadau o hyd pan fydd yr injan yn rhedeg. |
| Cerbyd trydan batri | Cerbyd sy'n rhedeg ar drydan yn unig ac sydd heb injan tanio mewnol. |
| Deunydd gronynnol (PM) | Gronynnau mân yn yr aer a all gael eu hanadlu gan bobl ac effeithio ar eu hiechyd. |

| | |
|---|---|
| Grwpiau sy'n agored i niwed | Pobl y gall llygredd aer gael mwy o effaith arnynt, gan gynnwys plant, pobl hŷn, menywod beichiog a phobl sydd â chyflyrau iechyd yn barod. |
| Hysbysiad Cosb Benodedig | Hysbysiad sy'n rhoi cyfle i berson gyflawni atebolrwydd am drosedd drwy dalu cosb benodedig o fewn cyfnod penodol. |
| Injan tanio mewnol | Injan sy'n llosgi tanwydd, fel petrol neu ddiesel, i bweru cerbyd. |
| Llygredd aer sy'n gysylltiedig â thraffig | Llygredd aer sy'n gysylltiedig â thraffig ar y ffordd, gan gynnwys allyriadau o egsôsts cerbydau a ffynonellau eraill sy'n gysylltiedig â thraffig. |
| Newid ymddygiad | Gweithgarwch a luniwyd i annog pobl i fabwysiadu arferion neu gamau gweithredu gwahanol, fel diffodd yr injan pan fydd eu cerbyd yn llonydd. |
| $NO_x$ | Ocsidau nitrogen, grŵp o lygryddion aer sy'n cael eu cynhyrchu yn ystod prosesau hylosgi, gan gynnwys injans cerbydau. |
| $PM_{2.5}$ | Deunydd gronynnol mân â diamedr o 2.5 micrometr neu lai. |
| $PM_{10}$ | Deunydd gronynnol â diamedr o 10 micrometr neu lai. |
| Priffordd gyhoeddus | Ffordd neu briffordd arall y gall y cyhoedd ei defnyddio. |
| Safonau'r Gymraeg | Safonau cyfreithiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau penodol beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfathrebu a darparu gwasanaethau. |
| Segura llonydd | Pan fydd cerbyd yn llonydd ond gyda'r injan yn rhedeg o hyd. |
| Swyddog awdurdodedig | Person sydd wedi'i awdurdodi gan awdurdod lleol i ymgymryd â gweithgarwch gorfodi, gan gynnwys gofyn i yrrwr ddiffodd injan sy'n segur a, lle bo hynny'n briodol, gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig. |
| Teithio llesol | Cerdded, olwyno neu feicio ar gyfer teithiau bob dydd. |
| Trosedd segura llonydd | Trosedd yn ymwneud â cherbyd sy'n llonydd ond y mae ei injan yn dal i redeg pan fo'r gofynion cyfreithiol i atal allyriadau yn gymwys. |

## Rhagair

Mae Cymru yn parhau i gymryd camau i wella ansawdd aer a lleihau allyriadau a lefelau sŵn. Mae hyn yn hanfodol i amddiffyn iechyd a lles pobl, cefnogi'r economi, a diogelu bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol.

Er bod deddfwriaeth i gryfhau trefniadau monitro a rheolaethau ar allyriadau wedi arwain at welliannau dros amser, mae gwelliannau i'w gwneud o hyd, er enghraifft, mae llygredd aer yn parhau i fod yn risg ddifrifol i iechyd a'r amgylchedd. Mae segura llonydd yn un ffynhonnell o'r fath o lygredd aer.

Mae Rheol 123 o Reolau’r Ffordd Fawr yn cynghori gyrwyr i ddiffodd eu hinjan pan fydd eu cerbyd yn llonydd ar ffordd gyhoeddus.[1] O dan rai amgylchiadau mae gadael injan cerbyd i redeg tra bod y cerbyd yn llonydd yn drosedd a allai arwain at euogfarn droseddol, neu Hysbysiad Cosb Benodedig.

Datblygwyd y canllawiau hyn mewn ymateb i ymwybyddiaeth gynyddol o'r niwed a achosir gan Segura Llonydd, a diddordeb cynyddol mewn cymryd camau ymarferol i leihau allyriadau a sŵn y gellir eu hosgoi.

Maent yn helpu awdurdodau lleol yng Nghymru i leihau Segura Llonydd mewn ffordd glir, gymesur ac ymarferol. Fe'u cyhoeddir ar ôl i ystod cosbau newydd (**£75-£150**) ar gyfer Troseddau Segura Llonydd gael ei chyflwyno o **30 Medi 2026**.

Mae lleihau segura diangen yn arbennig o bwysig mewn lleoliadau lle gall pobl ddod i gysylltiad fwyaf ag allyriadau cerbydau, gan gynnwys o amgylch ysgolion, ysbytai ac ardaloedd eraill â phoblogaethau agored i niwed.

Anogir awdurdodau lleol i ystyried integreiddio gweithgareddau gorfodi Segura Llonydd yn eu strategaethau lleol ehangach ar gyfer mynd i'r afael ag effeithiau llygredd aer a sŵn. Fodd bynnag, os bydd awdurdod yn dewis gwneud hynny, caiff ei atgoffa mai dim ond am Droseddau Segura Llonydd sy'n gysylltiedig ag allyriadau ac nid sŵn y gellir cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig o dan Reoliadau 2003. Gallai strategaethau ehangach gynnwys gwaith monitro sylfaenol, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, arwyddion, gwaith partneriaeth ag ysgolion, lleoliadau gofal iechyd a gweithredwyr fflyd, a chynllun cyfathrebu clir cyn i gamau gorfodi gweithredol ddechrau.

## Cyflwyniad a diben y canllawiau

### Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn

Lluniwyd y ddogfen hon i helpu awdurdodau lleol i leihau achosion o Segura Llonydd mewn ffordd ymarferol a chymesur. Cynlluniwyd y canllawiau hyn fel y gallwch droi at yr adrannau sydd fwyaf perthnasol i'ch amgylchiadau lleol.

---

[1] Rheol 123 o Reolau'r Ffordd Fawr - Rheolau'r Ffordd Fawr

- Os oes angen i chi ddeall y mater – dechreuwch gyda’r adran ar beth yw Segura Llonydd, pam mae'n bwysig, a ble mae’n digwydd fel arfer.
- Os ydych yn cynllunio ymgyrch leol – ewch i'r adran ar yr adnoddau sydd ar gael, dulliau ymgyrchu a negeseuon, a'r atodiadau.
- Os ydych yn ystyried gorfodi – ewch i'r adran ar y gyfraith a hysbysiadau cosb benodedig.
- Os oes gennych ddiddordeb mewn enghreifftiau, templedi neu syniadau parod i'w defnyddio, trowch at yr atodiadau.

## Cyflwyniad cyflym i awdurdodau lleol

Os ydych yn ystyried mynd i'r afael â Segura Llonydd yn eich ardal dyma nifer o bethau y gallech eu hystyried:

- Nodi eich lleoliadau problemus tebygol fel ysgolion, lleoliadau gofal iechyd, neu ardaloedd y gwyddys y mae pobl yn cwyno amdanynt.
- Penderfynu ar eich ffocws cychwynnol – codi ymwybyddiaeth, newid ymddygiad, gweithredu wedi’i dargedu, gorfodi, neu gyfuniad o’r rhain.
- Blaenoriaethu ble gallai camau gweithredu arwain at y budd mwyaf i iechyd y cyhoedd.
- Cyfathrebu – gan gynnwys arwyddion, ymgysylltu ag ysgolion neu gymunedau, a negeseuon cyhoeddus cyson.
- Gorfodi - sicrhau bod prosesau lleol, lefelau cosbau a gofynion cyhoeddi ar waith.
- Adolygu – ystyried beth sy'n gweithio, addasu a mireinio eich dull gweithredu dros amser.

## Cyflwyniad

Llygredd aer yw un o'r heriau amgylcheddol mwyaf sylweddol i iechyd y cyhoedd o hyd. Er bod ansawdd aer yng Nghymru yn gwella'n gyffredinol, mae anghydraddoldebau o ran risg amlygiad yn parhau ar lefel leol.

Er ei fod yn aml yn anweledig, mae llygredd aer yn cael effaith ddwys a phellgyrhaeddol ar iechyd a llesiant. Mae'n cyfrannu at farwolaethau cynamserol ac yn lleihau ansawdd bywyd gydag effeithiau sy'n gysylltiedig â phwysau geni isel, asthma plentyndod, clefyd y galon, strôc, dementia, a chyflyrau iechyd meddwl.[2] Nid yw'n effeithio ar bawb yn yr un modd. Mae pobl hŷn, pobl anabl, plant ifanc, a'r rhai

---

[2] Health matters: air pollution - GOV.UK; COMEAP: reports and statements - GOV.UK

sydd â chyflyrau iechyd yn barod yn arbennig o agored i niwed ac yn aml yn profi effaith anghymesur.

Mae llygredd aer hefyd yn niweidio'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys ecosystemau a bioamrywiaeth.[3]

Un ffordd ymarferol o amddiffyn iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd yw cymryd camau syml, hawdd eu gweithredu. Gall mynd i'r afael â segura llonydd leihau allyriadau y gellir eu hosgoi yn yr ardal dan sylw a helpu i amddiffyn y grwpiau a'r cymunedau sydd fwyaf agored i niwed ac sy'n teimlo'r effaith fwyaf - yn enwedig o amgylch ysgolion, cartrefi gofal, a mannau eraill lle mae pobl yn wynebu'r risg fwyaf.

Yn 2024, comisiynodd Llywodraeth Cymru arolwg o ymwybyddiaeth a barn y cyhoedd ar Segura Llonydd. Dangosodd yr arolwg, a oedd yn cynnwys sampl gynrychioliadol o 1,000 o oedolion, fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn ystyried bod segura yn annerbyniol mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ger ysgolion, colegau a siopau. Roedd dros 80% o'r ymatebwyr yn cytuno bod segura yn golygu bod pobl y tu allan i'r cerbyd yn dod i gysylltiad ag allyriadau sy'n niweidiol i'w hiechyd, a dim ond tua thraean oedd yn gwybod bod segura yn drosedd.

Mae camau gweithredu i leihau Segura Llonydd yn bwysig a gellid eu hystyried fel rhan o becyn ehangach o fesurau ategol a gynlluniwyd i leihau llygredd aer a chynyddu cynaliadwyedd.Gall torri allyriadau y gellir eu hosgoi wrth y ffynhonnell naill ai drwy orfodi troseddau Segura Llonydd a/neu annog newid ymddygiad ategu ymdrechion lleol i reoli ansawdd aer, mentrau teithio llesol, ac amcanion iechyd y cyhoedd gan ddod yn rhan o ymateb lleol effeithiol i fannau problemus o ran llygredd.

Wrth gyhoeddi'r canllawiau hyn, mae Gweinidogion Cymru yn dibynnu ar adran 88 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae adran 88(2) o Ddeddf 1995 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir o dan adran 88. Nodir hyn yn y canllawiau hyn pan fyddwn yn dweud ‘rhaid i awdurdodau lleol’ / ‘dylai awdurdodau lleol’ neu rywbeth tebyg.

Nid yw adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir o dan yr adran honno. Nodir hyn yn y canllawiau hyn pan fyddwn yn dweud ‘gall awdurdodau lleol’ / ‘gallai awdurdodau lleol’ neu rywbeth tebyg.

## Safonau’r Gymraeg

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (“Rheoliadau 2015”). Wrth gyflawni gweithgarwch gwrth-segura, gan gynnwys gweithgareddau gorfodi, dylai awdurdodau sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan gynnwys drwy ddarparu deunydd cyfathrebu dwyieithog,

---

[3] Cyfoeth Naturiol Cymru / SoNaRR 2025: Llygredd; Air Pollution | Advisor to Government on Nature Conservation | JNCC

amlygrwydd cyfartal a deunyddiau Cymraeg o ansawdd, ac ystyried effeithiau ar y Gymraeg wrth ddatblygu polisïau a dulliau gorfodi a'u rhoi ar waith. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod hysbysiadau cosb benodedig, gohebiaeth sy'n ymwneud â gorfodi, a deunydd cyfathrebu arall ar gyfer y cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Pan gaiff swyddogaethau gorfodi neu weithgareddau cysylltiedig eu cyflawni gan gontractwr neu drydydd parti arall ar ran awdurdod lleol, dylai awdurdodau sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn parhau i gael eu bodloni.

Mae mynd i'r afael â segura llonydd, yn enwedig mewn mannau problemus hysbys, yn creu cyfleoedd i hyrwyddo dulliau cyfathrebu dwyieithog, integreiddio deunyddiau addysgol ac ymwybyddiaeth Cymraeg eu hiaith, a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn mentrau amgylcheddol. Gall helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn fwy gweladwy a hygyrch mewn deunydd cyfathrebu cyhoeddus, a gall helpu i deilwra dulliau gweithredu at gymunedau lleol, gan gynnwys ardaloedd Cymraeg eu hiaith.

Pan fydd awdurdod lleol yn arfer ei bwerau o dan Reoliadau 2003 i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig am Droseddau Segura Llonydd, bydd yn ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd drwy hysbysiadau y mae'n rhaid iddynt gynnwys gwybodaeth benodol gan gynnwys manylion amgylchiadau'r drosedd, swm y gosb, dulliau talu, a gwybodaeth weithdrefnol. Caiff person awdurdodedig sy'n ystyried bod Trosedd Segura Llonydd wedi'i chyflawni gyflwyno hysbysiad cosb benodedig i yrrwr y cerbyd. Nid yw'r darpariaethau deongliadol yn Rheoliadau 2015 yn cynnwys unrhyw eithriad ar gyfer gweithgareddau gorfodi na hysbysiadau cosb benodedig sy'n ymwneud â throseddau allyriadau cerbydau. O dan Reoliadau 2015, rhaid i bob ffurflen a gaiff ei llunio at ddefnydd y cyhoedd gael ei llunio yn Gymraeg, ac ni ddylid trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

Atgoffir awdurdodau lleol i sicrhau bod yr holl ddeunyddiau ar gyfer y cyhoedd ar gael yn Gymraeg, a'u bod yn weladwy, yn hawdd cael gafael arnynt ac yn cael eu cynnig yn rhagweithiol.

## Diben y canllawiau

Diben y canllawiau hyn yw annog a helpu awdurdodau lleol yng Nghymru i ddatblygu a gweithredu dulliau lleol o leihau Segura Llonydd, a hynny yn ddelfrydol mewn mannau problemus hysbys. Maent yn esbonio'r mater, yn amlinellu'r cyd-destun cyfreithiol a pholisi, ac yn rhoi cyngor ymarferol ar godi ymwybyddiaeth, newid ymddygiad, gweithio mewn partneriaeth a gorfodi.

Mae mynd i'r afael â Segura Llonydd yn fesur iechyd y cyhoedd a all helpu i leihau cysylltiad pobl ag allyriadau cerbydau a sŵn traffig. Gall hysbysu pobl am effeithiau allyriadau cerbydau ac annog gyrwyr i ddiffodd eu hinjan hefyd ysgogi penderfyniadau teithio mwy cynaliadwy. Mae diwygiadau diweddar i Reoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2003 yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol o ran sut maent yn ymateb i Droseddau Segur Lonydd.

Gallai lleihau achosion o segura llonydd helpu i gefnogi polisïau a deddfwriaeth allweddol gan gynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach
- Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024
- Hyrwyddo Ymwybyddiaeth o Lygredd Aer - Cynllun Cyflawni 2025 i 2028
- Rheoli ansawdd aer lleol a seinweddau yng Nghymru 2025[4]

Ein bwriad yw y bydd y canllawiau hyn yn helpu i lywio'r ffordd y bydd awdurdodau lleol yn mynd ati i wella ansawdd aer. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, mesurau i godi ymwybyddiaeth o niwed llygredd aer, a chymorth ar gyfer Teithio Llesol a strydoedd mwy diogel. Mae'r canllawiau hefyd yn adnodd cyfeirio ar gyfer gweithgareddau gorfodi.

Er ein bod yn cydnabod mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am orfodi, rydym yn rhagweld y gallai adrannau gwahanol o'r ddogfen hon fod o ddiddordeb i gyrff eraill sy'n ymwneud â rheoli ansawdd aer, yn ogystal â sefydliadau y mae eu gweithgareddau yn effeithio ar ansawdd aer o bosibl. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n gweithio ym meysydd cynllunio a thrafnidiaeth, ysgolion a sefydliadau addysgol eraill, sefydliadau iechyd a gweithwyr iechyd proffesiynol, a grwpiau cymunedol. Gallai'r adrannau hyn gynnig gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol i fynd i'r afael â Segura Llonydd, ond ni fyddai gweithgareddau o'r fath yn gyfystyr â gweithgareddau gorfodi.

## Beth yw segura llonydd?

Mae segura llonydd yn digwydd pan na fydd cerbyd ag injan tanio mewnol (ICE) yn symud ond bod yr injan yn parhau i redeg.

Mae Segura Llonydd yn arfer niweidiol sy'n creu llygredd aer a sŵn y gellir eu hosgoi, ac yn helpu i ffurfio mwrllwch. Mae hefyd yn gwastraffu tanwydd, gan gynyddu costau i yrwyr. Pan fydd cerbyd yn segura, mae llygryddion yn cael eu rhyddhau i un lleoliad am gyfnod estynedig, sy'n golygu lefel uwch o gysylltiad i bobl sydd gerllaw a theithwyr mewn cerbydau eraill. Mae hefyd yn cynyddu lefelau sŵn yn y lleoliad hwnnw ar y pryd.

Mae Rheol 123 o Reolau’r Ffordd Fawr yn dweud y dylai gyrwyr, pan fydd eu cerbyd yn llonydd ar ffordd gyhoeddus ac yn debygol o barhau'n llonydd am fwy na rhai munudau, ddefnyddio'r brêc parcio a diffodd yr injan.[5]

O dan adran 42 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, gallai person sy'n cyflawni Trosedd Segura Llonydd gael dirwy, ar ôl cael euogfarn ddiannod. O dan Reoliadau 2003 caiff unigolyn awdurdodedig gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig am Drosedd Segura

[4] Yr Amgylchedd Aer Lleol Rheoli ansawdd aer lleol a seinweddau yng Nghymru 2025

[5] Rheol 123 o Reolau'r Ffordd Fawr - Rheolau'r Ffordd Fawr

Llonydd. Ni ellir cael euogfarn ddiannod a Hysbysiad Cosb Benodedig am yr un drosedd.

## Y mathau o gerbydau sy'n gymwys

**Cerbydau petrol, diesel a hybrid**

Dim ond i gerbydau â pheiriannau sy'n cynhyrchu allyriadau egsôst pan fyddant yn llonydd y mae Trosedd Segura Lonydd yn berthnasol. Felly, pan fyddwn yn trafod Segura Llonydd, mae hynny'n cynnwys cerbydau petrol, diesel a hybrid.

Gall cerbydau hybrid barhau i gynhyrchu allyriadau pan fydd eu hinjan tanio mewnol yn rhedeg tra bod y cerbyd yn llonydd, hyd yn oed os yw'r cerbyd yn gallu gweithredu mewn modd trydan.[6] Felly, dylai gyrwyr cerbydau hybrid osgoi Segura Llonydd yn yr un modd ag y dylai gyrwyr cerbydau petrol a diesel.

Fel arfer, mae gweithgynhyrchwyr cerbydau ag injan tanio mewnol yn cynghori gyrwyr i osgoi Segura Llonydd fel bod yr injan yn rhedeg yn y ffordd fwyaf effeithlon a darbodus. Mae injans a systemau egsôst yn cyrraedd y tymheredd gweithredu gorau yn llawer cyflymach trwy yrru yn hytrach na segura.[7] Mae angen i drawsnewidyddion catalytig, sy'n lleihau llygryddion egsôst, gyrraedd tymheredd gweithredu er mwyn gweithio'n effeithiol. Os na fyddant yn gwneud hynny, efallai y bydd tanwydd ond yn cael ei losgi'n rhannol. Mae hyn yn arwain at fwy o allyriadau a gweddillion yn cronni, sy'n lleihau effeithlonrwydd tanwydd ac yn treulio'r injan.[8]

**Cerbydau trydan**

Nid oes gan gerbydau trydan sy'n defnyddio batri injan tanio mewnol, ac felly nid ydynt yn cynhyrchu allyriadau egsôst pan fyddant yn llonydd.

**Tacsis a cherbydau hurio preifat**

Gall gyrwyr dreulio cyfnodau hir yn aros mewn safleoedd tacsis neu leoliadau casglu. Fodd bynnag, fel arfer, mae systemau archebu, dosbarthu a mesuryddion yn gweithio hyd yn oed pan na fydd yr injan yn rhedeg. Gall systemau dosbarthu tacsis modern hefyd ddefnyddio terfynellau data symudol, ffonau clyfar neu offer cyfathrebu pwrpasol sy'n gweithio'n annibynnol ar yr injan. Mae tacsis a cherbydau hurio preifat yn ddarostyngedig i'r un gofynion cyfreithiol mewn perthynas â Segura Llonydd â cherbydau eraill pan fyddant ar ffordd gyhoeddus.

**Cerbydau tyrbo**

Mae injans tyrbo yn defnyddio nwyon egsôst i gynyddu effeithlonrwydd a phŵer yr injan. Mae'r systemau hyn yn gweithredu ar dymereddau uchel iawn ac efallai y bydd angen gweithdrefnau gweithredu penodol arnynt o ran cynhesu ac oeri. Mae amrywiaeth o gyngor sy'n annog gyrwyr i segura am gyfnodau amrywiol o amser ar ôl gyrru'n hir ar gyflymder uchel neu gyda llwyth mawr. Fodd bynnag, ar gyfer y rhan

---

[6] Cars and Fuel Options | Vehicle Certification Agency

[7] which_is_greener.pdf

[8] Idling your car - the myths

fwyaf o deithiau bob dydd, ac ar gyfer cerbydau modern gan gynnwys y rhai sydd â systemau sy'n cylchredeg oerydd ar ôl i'r injan gael ei diffodd, nid oes angen Segura Llonydd o'r fath.

Mae Troseddau Segura Llonydd yn gymwys yn yr un modd i bob gyrrwr a phob cerbyd sydd ag injan tanio mewnol, oni bai bod eithriad penodol yn gymwys yn ôl y gyfraith.

### Lleoliadau nodweddiadol lle mae cerbydau yn segura

Mae Segura Llonydd yn gyffredin mewn amrywiaeth o leoedd, ond ni fydd Trosedd Segura Llonydd yn cael ei chyflawni ym mhob achos. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod swyddogion gorfodi yn gwybod beth sy'n cyfrif fel Trosedd Segura Llonydd a phryd mae camau gorfodi'n briodol. Er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd, efallai y bydd awdurdodau lleol am wneud gwaith i annog pobl i beidio â Segura'n Llonydd ym mhob sefyllfa.

Mae'n ddefnyddiol ystyried y gallai Segura Llonydd fod yn fwy o broblem o dan amgylchiadau neu mewn lleoliadau penodol. Mae mannau problemus cyffredin yn cynnwys (ni fyddai'r holl enghreifftiau hyn yn gyfystyr â Throsedd Segura Llonydd):

- Y tu allan i **gyfleusterau addysgol** fel ysgolion a cholegau lle mae gyrwyr ceir (gan gynnwys tacsis/cerbydau preifat/cerbydau hurio) a bysiau yn fwy tebygol o fod yn aros am gyfnodau hir a lle gall nifer fawr o blant a phobl ifanc ddod i gysylltiad ag allyriadau cerbydau.
- **Meithrinfeydd –** lle gall rhieni, gofalwyr, tacsis a cherbydau dosbarthu fod yn stopio, neu'n aros ar adegau gollwng a chasglu, a lle gall plant ifanc fod yn arbennig o agored i effeithiau iechyd dod i gysylltiad ag allyriadau cerbydau.
- Canolfannau **gofal dydd, cartrefi gofal** preswyl, **cartrefi nyrsio** a **cyfleusterau byw â chymorth** yn enwedig yn ystod amseroedd gollwng, casglu ac ymweld. Pan fydd ceir preifat, trafnidiaeth gymunedol, bysiau mini a cherbydau gwasanaeth yn gadael eu hinjans i redeg wrth aros, mae hynny'n cynyddu'r risg y bydd pobl hŷn, unigolion â chyflyrau iechyd isorweddol, staff ac ymwelwyr yn dod i gysylltiad ag allyriadau.
- Y tu allan i **gyfleusterau meddygol** fel **clinigau, meddygfeydd** ac **ysbytai** lle gall gyrwyr fod yn aros am gyfnodau hir o amser ac maent yn fwy tebygol o effeithio ar staff, ymwelwyr a phobl â chyflyrau iechyd a allai waethygu yn sgil llygredd aer.
- Wrth **groesfannau rheilffordd,** lle gall traffig llonydd gronni tra bod cerbydau'n aros i groesi traciau trên, weithiau am gyfnodau hir. Gall gyrwyr adael eu hinjans i redeg wrth aros, sy'n helpu i gynyddu lefelau sŵn a llygredd aer yn yr ardal gyfagos, gan effeithio ar gerddwyr, preswylwyr a theithwyr mewn cerbydau eraill sy'n aros ar adegau rheolaidd drwy gydol y dydd.

- Safleoedd bwyd a diod gyda darpariaeth **gyrru drwodd** lle gall cwsmeriaid a staff ddod i gysylltiad ag allyriadau cerbydau. Gall staff ddod i gysylltiad ag allyriadau cerbydau am gyfnodau hir yn ystod eu shifftiau.
- Mewn **ardaloedd siopa** gan gynnwys y stryd fawr, meysydd parcio archfarchnadoedd a pharciau manwerthu, gan effeithio ar gwsmeriaid sy'n mynd i mewn ac allan o siopau.
- Mewn **arosfannau bysiau** a **gorsafoedd bysiau** pan fydd rhaid aros yn hir, a phan fydd gyrwyr yn newid drosodd, gan effeithio ar gwsmeriaid sy'n ciwio a phreswylwyr cyfagos.
- Mewn **gorsafoedd trên** a chyfnewidfeydd trafnidiaeth eraill lle mae cerbydau'n aros am deithwyr sy'n cyrraedd, yn enwedig mewn mannau codi/gollwng a mannau aros cyfagos.
- Wrth **safleoedd tacsi** lle gall gyrwyr adael eu hinjans i redeg am gyfnodau hir wrth iddynt aros am gwsmeriaid, sy'n golygu bod gyrwyr eraill a phobl sy'n mynd heibio yn dod i gysylltiad ag allyriadau.
- Mewn **parciau coetsys** lle gall gyrwyr sawl coets adael eu hinjan i redeg tra'u bod yn aros am eu hamser i adael, sy'n golygu bod cwsmeriaid sy'n ciwio yn dod i gysylltiad ag allyriadau cerbydau.
- Mewn **meysydd parcio**, sy'n effeithio ar yrwyr eraill yn eu cerbydau a'r rhai sy'n mynd i mewn ac allan o'r safle, a hefyd ar breswylwyr yn y cyffiniau.
- Mewn **gorsafoedd tanwydd** wrth aros am bwmp rhydd, sy'n golygu bod cwsmeriaid eraill yn dod i gysylltiad ag allyriadau egsôst.
- **Baeau a chanolfannau llwytho**, lle gall cerbydau aros yn llonydd gyda'r injans yn rhedeg.

### Lleoliadau risg uchel

Dyma enghreifftiau o leoliadau lle gall niferoedd anghymesur o uchel o bobl agored i niwed ddod i gysylltiad â llygredd o ganlyniad i segura llonydd.

**Ysgolion**

Gall ysgolion chwarae rhan unigryw wrth godi ymwybyddiaeth o lygredd aer a chamau gweithredu i leihau effeithiau amgylcheddol. Mae segura llonydd yn gyffredin y tu allan i ysgolion, yn enwedig ar adegau gollwng a chasglu. Mae plant ifanc yn arbennig o agored i niwed am fod eu hysgyfaint yn dal i ddatblygu.[9] Mae llygredd aer sy'n gysylltiedig â thraffig wedi'i gysylltu ag amseroedd ymateb arafach a lefelau canolbwyntio is ymhlith plant ysgol.[10]

---

[9] Early life risks to your child's lungs | Asthma + Lung UK

[10] Association between traffic-related air pollution in schools and cognitive development in primary school children: a prospective cohort study. – DOAJ; Traffic-related Air Pollution and Attention in Primary School Children: Short-term Association - PMC

Gall allyriadau cerbydau gyfrannu at lygredd awyr agored o amgylch ysgolion ac at lygredd gronynnol dan do mewn adeiladau ysgol. Mae ymchwil wedi canfod cydberthnasau rhwng llygredd awyr agored sy'n gysylltiedig â thraffig a lefelau gronynnau dan do.

Gan fod Segura Llonydd yn ffynhonnell sylweddol o allyriadau lleol, mae tystiolaeth o fentrau gwrth-segura mewn ysgolion yn dangos y gall segura gyfrannu'n sylweddol at lefelau llygredd lleol. Mae gweithgareddau llwyddiannus i geisio lleihau segura wedi dangos gwelliannau mesuradwy mewn ansawdd aer o amgylch ysgolion.[11]

Gallai gostyngiad o 20% mewn llygredd aer o amgylch ysgolion arwain at welliant o oddeutu 6% yng nghof gweithio plant — sy'n cyfateb i hyd at bedair wythnos ychwanegol o amser dysgu bob blwyddyn.[12]

Mae cynnwys llygredd aer yn y cwricwlwm yn rhoi cyfle i addysgu plant a chyrraedd oedolion drwy gymunedau ysgolion.

Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys adnoddau i gefnogi gweithgareddau gwrth-segura mewn ysgolion, gan gynnwys enghraifft o'r canlynol: taflen i rieni, templed arsylwadau ysgol a hysbysiadau enghreifftiol ar gyfer cylchlythyrau. Gellir defnyddio'r adnoddau a ddarperir yn yr atodiadau ochr yn ochr â gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, gwaith monitro ac ymgyrchoedd dan arweiniad ysgolion. Mae pecynnau cymorth, astudiaethau achos a deunyddiau ychwanegol ar gael o dan Dolenni i adnoddau pellach. Mae llawer o'r adnoddau hyn yn disgrifio gweithgareddau fel dysgu yn yr ystafell ddosbarth a chodi ymwybyddiaeth, monitro ac arsylwadau ymarferol, datblygu deunyddiau ymgyrchu (e.e. posteri/baneri), ac asesiadau -dilynol, gyda chanfyddiadau'n cael eu rhannu ar draws cymuned yr ysgol.

Gall y gweithgareddau hyn hefyd helpu disgyblion i ddatblygu sgiliau casglu data, gwerthuso a chyfathrebu effeithiol.

**Ysbytai a Chartrefi Gofal**

Gall ysbytai, meddygfeydd, cartrefi gofal a lleoliadau gofal iechyd eraill chwarae rhan bwysig wrth leihau cysylltiad ag allyriadau niweidiol. Mae segura llonydd yn gyffredin mewn safleoedd gofal iechyd, yn enwedig gerllaw adrannau brys, baeau ambiwlansys, mannau gollwng cleifion a meysydd parcio.

Mae cleifion, preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn y lleoliadau hyn yn aml yn arbennig o agored i effeithiau ansawdd aer gwael, gan gynnwys pobl hŷn, menywod beichiog, babanod, ac unigolion sydd eisoes â chyflyrau anadlol, cardiofasgwlaidd neu gyflyrau iechyd hirdymor eraill. Gall dod i gysylltiad â llygredd aer waethygu cyflyrau presennol a chynyddu risgiau iechyd i gleifion a staff.

Gall allyriadau cerbydau gronni mewn mannau lle mae cerbydau'n ciwio neu'n aros, gan gynyddu lefelau cysylltiad i bobl sy'n mynd i mewn i adeiladau neu'n eu gadael. Gall llygredd awyr agored sy'n gysylltiedig â thraffig hefyd dreiddio i mewn i

---

[11] Air Quality and Behavioural Impacts of Anti-Idling Campaigns in School Drop-Off Zones, Reducing car idling at primary schools: An intervention study of parent behaviour change in Perth, Western Australia - PubMed

[12] Prediction of changes in working memory and associated changes in educational attainment

amgylcheddau dan do, sy'n golygu y gall segura effeithio ar ansawdd aer dan do ac yn yr awyr agored.

Gall lleoliadau gofal iechyd hefyd arwain trwy esiampl. Gall mesurau ymarferol gynnwys arwyddion gwrth-segura, ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth staff, gwaith ymgysylltu â gwasanaethau ambiwlans a darparwyr gofal, a seilwaith fel cysylltiadau pŵer trydanol allanol i leihau'r angen am Segura Llonydd.

## Rhesymau cyffredin dros segura

Mae llawer o resymau pam y gallai gyrwyr adael eu hinjan i redeg. Gall deall y rhesymau hyn helpu i arwain ffyrdd o leihau Segura Llonydd.

**Cyfleustra ac arfer**

- Gall gyrwyr gredu nad oes angen diffodd yr injan pan fyddant wedi stopio am gyfnodau byr.
- Efallai bod gyrwyr wedi mynd i'r arfer o beidio â diffodd yr injan, yn enwedig mewn ciwiau neu wrth aros i gasglu rhywun.

**Cysur teithwyr**

- Cadw'r cerbyd yn gynnes neu'n oer er mwyn bod yn gysurus.

**Sefyllfaoedd lle mae gyrwyr yn aros**

- Casglu a gollwng plant yn yr ysgol.
- Safleoedd tacsi.
- Llwytho neu ddadlwytho nwyddau neu deithwyr.
- Aros wrth groesfannau neu y tu allan i siopau, gwasanaethau.

**Camsyniadau am gynnal a chadw/defnyddio cerbydau**

- Credu bod angen i injan "gynhesu" trwy segura cyn gyrru.
- Credu bod peidio â diffodd yr injan a'i hailgychwyn yn well o ran bywyd yr injan a'r batri.
- Meddwl bod segura yn hanfodol i ailwefru batri'r cerbyd.
- Credu bod ailgychwyn yr injan yn defnyddio mwy o danwydd neu'n achosi traul.

**Rhesymau sy'n gysylltiedig â gwaith neu resymau gweithredol**

- Cerbydau brys yn cadw eu hinjan i fynd er mwyn pweru a gweithredu offer mewnol.
- Cerbydau masnachol sy'n pweru cyfarpar ategol.
- Gyrwyr yn aros yn eu cerbydau yn ystod egwyliau.

**Ffactorau sefyllfaol a barn bersonol**

- Tagfeydd a thraffig sy'n symud yn araf.
- Defnyddio cyfarpar sy'n cael ei bweru gan y cerbyd, fel systemau gwresogi/oeri, radio, neu bwynt gwefru ffôn, ac ati.
- Mewn traffig, cred a phryder posibl na fydd y cerbyd yn ailgychwyn neu y bydd yr amser y mae'n ei gymryd i ailgychwyn yr injan yn peri oedi.
- Ddim yn gwybod neu ddim yn credu bod diffodd yr injan yn fuddiol mewn unrhyw ffordd.
- Credu ei bod hi'n iawn gadael injan yn segur am fod pobl eraill yn gwneud hynny.

## Pam mae mynd i'r afael â segura yn bwysig?

Beth bynnag fo'r rhesymau dros Segura Llonydd, mae'n ffynhonnell o allyriadau y gellir eu hosgoi. Mae lleihau Segura Llonydd yn gam syml a all sicrhau gwelliannau uniongyrchol a hirdymor o ran ansawdd aer, iechyd y cyhoedd ac amgylcheddau lleol.

### Ffeithiau am Segura Llonydd

- Bob munud y mae injan car yn cael ei gadael yn segur, mae'n cynhyrchu digon o egsôst i lenwi hyd at 150 o falŵns â llygryddion niweidiol, gan gynnwys cyanid, ocsidau nitrogen ($NO_x$) a deunydd gronynnol mân ($PM_{2.5}$).[13]
- Gall cysylltiad byrdymor â lefelau uchel o lygredd aer achosi effeithiau iechyd ar unwaith, ac mae cysylltiad hirdymor yn gysylltiedig â disgwyliad oes byrrach.[14]
- Mae segura am 30 eiliad yn cynhyrchu bron ddwywaith cymaint o lygredd â diffodd ac yna ailgychwyn yr injan.[15]
- Gall ansawdd yr aer y tu mewn i gerbyd fod yr un mor wael â'r tu allan, neu'n waeth, yn enwedig pan fydd y cerbyd yn segura'n llonydd gerllaw cerbydau eraill sy'n gwneud yr un peth.[16]
- Gall segura am awr wastraffu hanner galwyn (dau litr a chwarter) o danwydd neu fwy.[17]

---

[13] Engine off every stop — Idling Action
[14] Air-pollution-fact-sheet-Feb-2020.pdf; Health matters: air pollution - GOV.UK; Air pollution linked to 30,000 UK deaths in 2025 and costs the economy and NHS billions, warns Royal College of Physicians | RCP
[15] TRL-Executive-Summary.pdf
[16] Anti-idling | Cheshire West and Chester Council
[17] Tackling vehicle idling | Merton Council

- Gall segura am gyfnodau hir gynyddu traul ar yr injan a gall arwain at gostau cynnal a chadw uwch dros amser.[18]
- Mae injans cerbydau yn llosgi tanwydd yn llai effeithlon wrth segura nag wrth yrru, sy'n arwain at allyriadau diangen a gwastraff tanwydd.[19]
- Am fod allyriadau'n cael eu rhyddhau mewn un lleoliad, gall segura gynyddu llygredd aer lleol yn sylweddol.[20]
- Gall gormod o segura achosi difrod i'ch cerbyd dros amser.[21]
- Mae diffodd injan a'i hailgychwyn fel arfer yn arwain at lai o lygredd na gadael injan i redeg.[22]
- Nid oes angen i injans modern gynhesu am gyfnod hir cyn gyrru, hyd yn oed mewn tywydd oer.[23]
- Mae cerbydau sydd â thechnoleg stopio-cychwyn wedi'u cynllunio i ailgychwyn yn fynych – nid oes angen diffodd y dechnoleg hon i osgoi traul anghymesur.[24]
- Mae segura i ailwefru batri cerbyd yn aneffeithlon. Mae'n arwain at ddefnydd tanwydd diangen ac allyriadau.[25]

## Effeithiau ar Iechyd a'r Amgylchedd

### Ansawdd aer

Mae aer glân yn hanfodol i fywyd pob dydd ac iechyd pobl yn yr hirdymor.

Llygredd aer yw un o'r bygythiadau amgylcheddol mwyaf difrifol i iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae'n effeithio ar yr aer rydym yn ei anadlu bob dydd – gartref, yn y gwaith ac yn ein cymunedau.[26]

Mae'n effeithio ar bawb, ond mae plant, pobl hŷn a phobl â chyflyrau iechyd penodol yn arbennig o agored i niwed.

---

[18] A review on idling reduction strategies to improve fuel economy and reduce exhaust emissions of transport vehicles - ScienceDirect; Impact of idling on fuel consumption and exhaust emissions and available idle-reduction technologies for diesel vehicles – A review - ScienceDirect; d0bd25_0225bb7a5ff64341b5d0657472e36a7c.pdf
[19] Consumer Guide to Reducing Vehicle Idling; which_is_greener.pdf
[20] Full article: Reduction of atmospheric fine particle level by restricting the idling vehicles around a sensitive area; A multi-site analysis of the association between black carbon concentrations and vehicular idling, traffic, background pollution, and meteorology during school dismissals - ScienceDirect
[21] Gweler 18
[22] Gweler 18 a 19
[23] which_is_greener.pdf; Should You Warm Up Your Car Before Driving? - Consumer Reports; Idling your car - the myths
[24] Gweler 18 a 19
[25] Stop-start engines and idling – common myths revealed | RAC Drive
[26] Hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer yng Nghymru: cynllun cyflawni 2025 i 2028 [HTML] | LLYW.CYMRU

Trafnidiaeth ffyrdd yw un o'r cyfranwyr mwyaf at lygryddion aer niweidiol a sŵn yng Nghymru, yn enwedig mewn lleoliadau trefol a lleoliadau ar ochr y ffordd.[27]

Mae allyriadau cerbydau yn cyfrannu at gymysgedd o lygryddion niweidiol a elwir, gyda'i gilydd, yn llygredd aer sy'n gysylltiedig â thraffig (TRAP). Yn aml, cofnodir y crynodiadau uchaf mewn ardaloedd lle ceir tagfeydd, lle gall cerbydau fod yn segura neu'n symud yn araf.[28]

Mae ymchwil wedi dangos bod crynodiadau llygryddion yn aml yn uwch gerllaw lefel y ddaear.[29] Felly, gall babanod mewn cadeiriau gwthio, plant ifanc, pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu sgwteri symudedd, a grwpiau eraill sy'n agored i niwed ddod i fwy o gysylltiad â llygredd mewn ardaloedd lle mae injans yn cael eu gadael yn segura.[30]

Ychydig o ymchwil sydd wedi cael ei gynnal i effeithiau penodol segura llonydd ar lefelau cysylltiad y cyhoedd. Fodd bynnag, mae segura yn cynyddu cyfaint y llygredd yn yr aer ac mae'n digwydd yn aml mewn ardaloedd lle gall y cyhoedd ddod i gysylltiad uniongyrchol â llygredd aer.

Felly, gellir defnyddio camau i fynd i'r afael â Segura Llonydd fel rhan o unrhyw becyn i leihau effeithiau TRAP ar iechyd y cyhoedd.

### Effeithiau ar iechyd

Mae dod i gysylltiad â llygredd aer yn gysylltiedig ag amrywiaeth o gyflyrau, e.e.:

- ecsema
- llygaid coslyd
- clefyd anadlol
- clefyd cardiofasgwlaidd
- canser
- amhariadau ar ddatblygiad plant
- effeithiau gwybyddol
- canlyniadau beichiogrwydd andwyol
- marwolaeth gynamserol

Mae effeithiau'n codi gydol bywyd ond mae plant, pobl hŷn a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd yn barod yn wynebu mwy o risg.

---

[27] Cyfoeth Naturiol Cymru / SoNaRR2020: Trawsnewid y system drafnidiaeth
[28] Domestic air pollution emissions from transport in 2023 - GOV.UK; Near-road Vehicle Emissions Air Quality Monitoring for Exposure Modeling - PMC; How idling and maneuvering affect air quality: Case study of school commutes - ScienceDirect; Chemistry, street canyon geometry, and emissions effects on NO2 “hotspots” and regulatory “wiggle room” | npj Climate and Atmospheric Science
[29] Redalyc.Maximum ground level concentration of air pollutant
[30] A review of factors surrounding the air pollution exposure to in-pram babies and mitigation strategies - ScienceDirect

Gall dod i gysylltiad â llygredd yn ystod beichiogrwydd effeithio ar ddatblygiad corfforol a gwybyddol, gyda'r effaith yn parhau yn ystod plentyndod ac oedolaeth (e.e. galluoedd iaith is neu alluoedd motor is).[31]

Mae ysgyfaint plant yn dal i ddatblygu, sy'n golygu eu bod yn fwy agored i effeithiau niweidiol llygredd aer. Gall llygredd aer effeithio ar dwf a chynhwysedd yr ysgyfaint. Mae plant hefyd fel arfer yn agosach at y ddaear, yn agosach at allyriadau egsôst, ac yn anadlu'n gyflymach o gymharu â phwysau eu corff, gan anadlu'n aml trwy'r geg yn hytrach na'r trwyn, sy'n lleihau prosesau hidlo naturiol ac yn gallu cynyddu cymeriant llygryddion.[32]

Mae pobl hŷn ac unigolion â chyflyrau anadlol neu gardiofasgwlaidd cronig (er enghraifft asthma, clefyd y galon a diabetes) hefyd yn fwy agored i effeithiau andwyol.

Mae cysylltiad hirdymor â llygredd aer wedi'i gysylltu â dirywiad gwybyddol a mwy o farwolaethau, ymhlith canlyniadau eraill.[33]

Mae'r effeithiau hyn yn lleihau ansawdd bywyd, yn cyfrannu at gynyddu anghydraddoldebau iechyd (yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig, ardaloedd lle ceir lefelau uchel o draffig a mannau lle mae llygredd yn broblem), ac yn cynyddu'r pwysau ar wasanaethau iechyd am fod mwy o gleifion yn cael eu derbyn i'r ysbyty ac yn ymweld â meddygon teulu. Gall hyn hefyd arwain at golli cynhyrchiant a llai o gyfranogiad yn y gweithlu.

Nid oes trothwy diogel clir lle nad yw cysylltiad â llygredd aer yn peri risg i iechyd pobl. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod effeithiau ar iechyd yn digwydd hyd yn oed ar lefelau isel, gan gynnwys cysylltiad byrdymor arferol.

Mae Coleg Brenhinol y Meddygon yn amcangyfrif y gallai llygredd aer fod yn gysylltiedig â thua 30,000 o farwolaethau yn 2025 yn y DU.

Ar lefel unigolyn, mae dod i gysylltiad â llygredd aer yn byrhau oes person cyffredin o 1.8 mlynedd, effaith sy'n gymharol â phrif achosion eraill marwolaeth a chlefyd, fel canser (2.5 mlynedd) ac ysmygu tybaco (2.1 mlynedd).[34]

Amcangyfrifwyd bod tua 33,000 o flynyddoedd o fywyd iach yn cael eu colli yng Nghymru yn 2023 o ganlyniad i lygredd aer[35].

### Effeithiau ar yr Amgylchedd a'r Hinsawdd

---

[31] Prenatal air pollution exposure is associated with altered neurodevelopmental outcomes in early childhood - Bonthrone - The Journal of Physiology - Wiley Online Library

[32] Air pollution: A threat to children's rights | UNICEF; How air pollution affects your child's lungs | Asthma + Lung UK

[33] Long-term exposure to outdoor air pollution linked to increased risk of dementia | University of Cambridge; Air pollution and older people - Reports - Impact on Urban Health

[34] a-breath-of-fresh-air-responding-to-the-health-challenges-of-modern-air-pollution.pdf

[35] Global Burden of Disease (GBD)

Mae llygredd aer hefyd yn niweidio bywyd gwyllt, cynefinoedd naturiol a bioamrywiaeth. Amcangyfrifir bod hyd at 88% o gynefinoedd Cymru mewn perygl.[36]

Mae allyriadau trafnidiaeth ffordd, yn enwedig carbon deuocsid ($CO_2$), yn cyfrannu at newid hinsawdd trwy ddal gwres yn yr atmosffer. Gall carbon du (neu huddygl fel mae'n cael ei alw'n aml) gynyddu effeithiau hinsawdd ymhellach trwy amsugno golau haul a chyflymu cyfraddau toddi pan gaiff ei ddyddodi ar eira a rhew.

Mae llygryddion eraill sy'n gysylltiedig ag allyriadau cerbydau gan gynnwys deunydd gronynnol ($PM_{2.5}$), cyfansoddion organig anweddol (VOCs), carbon monocsid (CO) ac ocsidau nitrogen ($NO_X$) yn cyfrannu at ansawdd aer gwael, mwrllwch, osôn sy'n ffurfio ar lefel y ddaear a dyddodiad asid, gydag effeithiau ehangach ar ecosystemau, priddoedd a llystyfiant.

Mae gan Gymru ymrwymiad cyfreithiol rhwymol i gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050[37], sy'n golygu bod angen sicrhau gostyngiadau cynaliadwy ar draws sectorau a gwelliannau mewn canlyniadau amgylcheddol ehangach, gan gynnwys ansawdd aer.[38] Caiff fframwaith Net Sero Cymru ei ategu gan dargedau statudol a chyllidebau carbon a gymeradwywyd gan Senedd Cymru.

Er y gall blaenoriaethau cyflawni esblygu dros amser, mae camau gweithredu lleol i leihau allyriadau o drafnidiaeth ffyrdd yn parhau i fod yn gydnaws ag ymrwymiadau cyfreithiol hirdymor a nodau iechyd y cyhoedd Cymru.[39]

### Sŵn

Yng Nghymru, amcangyfrifir bod tua 25% o'r boblogaeth yn byw mewn cartrefi lle mae sŵn traffig ffyrdd uwchlaw trothwy'r Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol ar gyfer mapio sŵn, sef 55 dB $L_{den}$.[40] Er nad yw Segura Llonydd o bosibl yn cynhyrchu sŵn uwchlaw'r lefel hon[41], mae Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 yn cydnabod nad yw effeithiau sain yn dibynnu ar lefel desibel yn unig. Gall sŵn parhaus neu ailadroddus effeithio'n sylweddol ar ansawdd yr amgylchedd sain a gall gyfrannu at annifyrrwch, yn enwedig mewn lleoliadau sy'n dawel fel arall neu gyda'r hwyr neu dros nos.

Yn ôl adroddiad gan Sefydliad Iechyd y Byd, mae sŵn traffig yn poenydio un o bob tri unigolyn yn ystod y dydd, ac yn amharu ar gwsg un o bob pump yn ystod y nos. Nid yn unig mae llygredd sŵn yn aflonyddgar, mae hefyd yn effeithio ar iechyd, gan

[36] Cyfoeth Naturiol Cymru / SoNaRR2020: Ansawdd aer

[37] Galluogi Pobl Cymru i Bontio i Sero Net yn 2026-2030 a thu hwnt, ac elwa arno

[38] Targedau newid hinsawdd a chyllidebau carbon | LLYW.CYMRU

[39] Llesiant Cymru 2025: Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang [HTML] | LLYW.CYMRU; Ceir, gwartheg a glo: allyriadau Cymru rhwng 1990 a 2023

[40] Cynllun sŵn a seinwedd i Gymru 2023 i 2028 | LLYW.CYMRU; Mapio Sŵn Amgylcheddol 2022 | MapDataCymru; Amddifadedd | Stats Cymru

[41] Cars & Noise | Vehicle Certification Agency

gynyddu'r ffactorau risg ar gyfer clefyd isgemig y galon a gorbwysedd, amhariadau ar y clyw ac amhariadau gwybyddol, a beichiau iechyd eraill.[42]

Gall effeithiau sŵn fod yn gronnus pan fo nifer o gerbydau'n segura, pan fo cerbydau'n segura am gyfnod hir neu pan fo lefelau sŵn cefndir yn isel. Gall sŵn isel i gymedrol parhaus fod yn fwy aflonyddgar na digwyddiadau byr, uwch.

Yn ôl Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru[43] ar gyfer mis Mawrth i fis Awst 2025, dywedodd 800 o ymatebwyr (26%) eu bod yn cael eu poeni'n rheolaidd gan sŵn y tu allan i'w cartref. Roedd 80 o'r rhain wedi cynnwys cerbydau'n segura fel un o ffynonellau'r sŵn hwn.

Gall sŵn sy'n gysylltiedig â thraffig hefyd amharu ar fywyd gwyllt ac effeithio ar ansawdd yr amgylchedd.

Yn y cyd-destun hwn, gall lleihau Segura Llonydd hefyd arwain at leihau sŵn traffig a gall fod o fudd i'r amgylchedd a llesiant corfforol a meddyliol pobl.

### Crynodeb

Gall llygredd aer ddigwydd mewn llawer o leoliadau ac mae'n effeithio ar bob aelod o gymdeithas. Mae trafnidiaeth ffyrdd yn cyfrannu'n sylweddol at allyriadau carbon a llygredd aer lleol.

Er bod ansawdd aer cyffredinol wedi bod yn gwella, mae pobl yn dod i gysylltiad ag allyriadau cerbydau o hyd mewn mannau problemus o ran llygredd.

Mae Segura Llonydd yn ffynhonnell o allyriadau y gellir eu hosgoi yn aml. Mae gweithgarwch bwriadol i leihau Segura Llonydd yn fesur syml ac effeithiol a all sicrhau lleihad ar unwaith mewn llygredd, lleihau lefelau cysylltiad y cyhoedd â llygryddion niweidiol, a chefnogi amcanion hinsawdd.

Gall lleihau Segura Llonydd gyfrannu at ansawdd seinwedd gwell trwy leihau sŵn injan ymwthiol a galluogi pobl i glywed synau mwy cadarnhaol, gyda manteision ehangach o ran llesiant corfforol a meddyliol.

Gall awdurdodau lleol chwarae rhan hanfodol drwy eu dylanwad dros y canlynol:

- gwelliannau i iechyd yr amgylchedd
- systemau trafnidiaeth lleol
- rheoli a gorfodi traffig
- ardaloedd rheoli ansawdd aer
- penderfyniadau cynllunio a phenderfyniadau sy'n seiliedig ar leoedd
- fflyd y sector cyhoeddus ac arferion gweithredol

[42] Burden of disease from environmental noise: quantification of healthy life years lost in Europe; (PDF) Burden of Disease from Environmental Noise. Quantification of Healthy Life Years Lost in Europe
[43] Prif ganlyniadau: canlyniadau rhagarweiniol, wedi chwe mis | Trafnidiaeth Cymru

## Segura llonydd a'r gyfraith

**Rheol 123 o Reolau'r Ffordd Fawr -** mae'n datgan '**rhaid i chi beidio** â gadael cerbyd sydd wedi'i barcio heb neb i ofalu amdano â'r injan yn rhedeg neu adael injan cerbyd yn rhedeg yn ddiangen tra bo'r cerbyd hwnnw'n llonydd ar ffordd gyhoeddus.'[44] Er nad yw Rheolau'r Ffordd Fawr, ynddynt eu hunain, yn gyfreithiol rwymol, mae'r geiriau **'rhaid i chi beidio'** yn dangos bod y rheol yn cael ei chefnogi gan y gyfraith. Mae'r rheol yn cyfleu'r gofyniad cyfreithiol yn glir i yrwyr ac yn helpu i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei dehongli mewn ffordd gyson.

### Deddfwriaeth

O dan rai amgylchiadau gall Segura Llonydd fod yn drosedd a orfodir gan yr heddlu o dan adran 42 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 neu o dan Reoliadau 2003 gall y drosedd gael ei gorfodi gan berson awdurdodedig (person a awdurdodir gan awdurdod lleol) drwy sancsiynau sifil (hysbysiad cosb benodedig).

Ni all person dderbyn dirwy yn dilyn euogfarn ddiannod a hysbysiad cosb benodedig am yr un drosedd.

Mae'r pŵer i awdurdodau lleol roi cosbau o dan Reoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2003 wedi'i gyfyngu'n benodol i roi cosbau mewn cysylltiad ag allyriadau egsôst cerbydau ac nid yw'n ymestyn i sŵn.

Mae'r gyfraith sy'n llywodraethu Troseddau Segura Llonydd wedi'i chynnwys yn bennaf yn y ddeddfwriaeth ganlynol:

- **Rheoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladwaith a Defnydd) 1986 – Rheoliad 98**

  Yn sefydlu'r gofyniad cyfreithiol craidd i yrwyr ddiffodd yr injan pan fydd cerbyd yn llonydd, oni bai bod esemptiad penodol yn gymwys.[45]

- **Deddf Traffig Ffyrdd 1988 – adran 42**

  Yn darparu'r sail orfodi gyfreithiol ar gyfer Rheoliad 98 ac yn ei gwneud yn drosedd i ddefnyddio cerbyd ar ffordd yn groes i'r Rheoliadau Adeiladwaith a Defnydd.[46]

- **Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2003 (fel y'u diwygiwyd) gan Reoliadau 2026) (Rheoliadau 2003)**

  Yn nodi'r fframwaith gorfodi ymarferol yng Nghymru ac yn rhoi'r pŵer i swyddogion awdurdod lleol awdurdodedig ei gwneud yn ofynnol i yrwyr ddiffodd eu hinjan os ydynt yn credu'n rhesymol bod Trosedd Segura Llonydd yn cael ei chyflawni.

  Mae Rheoliadau 2003 yn diffinio Trosedd Segura Llonydd fel torri rheoliad 98 o'r Rheoliadau Adeiladwaith a Defnydd mewn perthynas ag atal allyriadau egsôst.

---

[44] Rheol 123 o Reolau'r Ffordd Fawr - Rheolau'r Ffordd Fawr
[45] Rheoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladwaith a Defnydd) 1986
[46] Deddf Traffig Ffyrdd 1988

Mae Rheoliad 12 o Reoliadau 2003 yn nodi mai dim ond os yw gyrrwr yn gwrthod diffodd injan ei gerbyd ar ôl cael cais i wneud hynny y caiff trosedd ei chyflawni. Mae Rheoliad 13 o Reoliadau 2003 yn darparu y gellir rhoi hysbysiad cosb benodedig i yrwyr sy'n gwrthod cydymffurfio, a'r ystod cosbau yw £75 i £150.[47]

### Esemptiadau

Mae amgylchiadau cyfyngedig lle nad yw Segura Llonydd yn drosedd ac felly nid oes gan awdurdodau lleol y pŵer i gyflwyno hysbysiad cosb benodedig.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- pan fydd cerbydau yn llonydd oherwydd amodau traffig (er enghraifft, wrth oleuadau traffig, mewn ciwiau, aros wrth groesfannau rheilffordd neu waith ffordd, neu mewn tagfeydd).
- pan fo'r injan yn pweru cyfarpar hanfodol (er enghraifft, systemau mewnol mewn cerbydau brys, a drysau hydrolig neu unedau oergell ar lorïau a faniau).
- pan fydd y cerbyd ar dir preifat (lle mae mynediad i'r cyhoedd wedi'i gyfyngu).
- i ganfod neu drwsio gwall ar y cerbyd, pan fo angen rhedeg yr injan er mwyn cynnal a chadw neu ganfod gwall.

Dylai swyddogion gorfodi lleol wybod am yr esemptiadau hyn.

Nid oes esemptiad penodol sy'n caniatáu Segura Llonydd er mwyn diniwlio a dadrewi sgriniau gwynt. Fodd bynnag, mae Rheol 229 o Reolau'r Ffordd Fawr yn nodi bod yn rhaid i sgriniau gwynt fod yn glir o rew, eira a niwl cyn gyrru.[48] Felly, atgoffir awdurdodau lleol fod dibynnu ar eu pwerau gorfodi yn ddewisol. Mewn achosion fel hyn, efallai y byddant yn penderfynu bod yn bragmatig, er enghraifft dewis rhoi cyngor ar ffyrdd eraill o glirio ffenestri cyn cychwyn ar daith yn hytrach na mynd ati i gyflwyno hysbysiad cosb benodedig. Mater i bob awdurdod lleol yw hwn.

### Ystod cosbau

O **30 Medi 2026**, cynyddodd yr ystod cosbau am Drosedd Segura Llonydd i **£75-£150**.

Gall awdurdod lleol nawr **ddewis**:

- pennu **symiau gwahanol ar gyfer y gosb benodedig**, o fewn yr ystod honno, sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau'r drosedd, neu
- pennu **un swm ar gyfer y gosb** o'r ystod honno ar gyfer pob trosedd segura llonydd a gyflawnir yn ei ardal.

Cyn cyflwyno hysbysiad cosb benodedig rhaid i awdurdodau lleol bennu a chyhoeddi swm y gosb neu symiau'r gosb ar gyfer eu hardal. Os bydd awdurdodau lleol yn dewis pennu symiau gwahanol sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau'r drosedd, rhaid iddynt

[47] Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2026
[48] Rheol 229 o Reolau'r Ffordd Fawr - Rheolau'r Ffordd Fawr

hefyd bennu a chyhoeddi graddfa sy'n nodi swm pob cosb benodedig a'r amgylchiadau perthnasol.

Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi'r wybodaeth hon ar eu gwefan. Gall awdurdodau lleol ddewis cyhoeddi'r wybodaeth hon mewn man arall, ond rhaid iddynt ei chyhoeddi ar eu gwefan hefyd.

Dim ond at ddibenion penodol y gellir defnyddio refeniw a godir drwy ddirwyon, fel yr amlinellir yn yr adran defnyddio enillion net isod.

### Defnyddio enillion net

Dim ond ar gyfer amgylchiadau penodol y gellir defnyddio unrhyw refeniw. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- gorfodi a gweinyddu troseddau segura llonydd
- mesurau sy'n cefnogi ac yn annog gwelliannau o ran ansawdd aer yn ardal yr awdurdod
- a/neu leihau lefelau cysylltiad y cyhoedd ag allyriadau trafnidiaeth yn ardal yr awdurdod.

## Pennu symiau'r gosb benodedig

Mae gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd i gymhwyso cosbau o fewn yr ystod ddiwygiedig, naill ai drwy sefydlu un swm ar gyfer pob Trosedd Segura Llonydd yn eu hardal neu drwy nodi symiau cosb gwahanol sy'n gymwys mewn amgylchiadau penodol.

### Un Swm ar gyfer Gosb Benodedig

Gall awdurdod lleol benderfynu cymhwyso un swm fel cosb am bob achos o segura llonydd yn ei ardal.

Pan fydd awdurdod lleol yn penderfynu defnyddio un swm, rhaid i swm y gosb fod o fewn yr ystod a ddarperir ar ei chyfer o dan reoliad 8 o Reoliadau 2003 (£75-£150).

### Symiau gwahanol ar gyfer cosbau penodedig

Gall awdurdod lleol benderfynu cymhwyso symiau gwahanol (o'r ystod £75-£150) ar gyfer cosbau, a dylid cysylltu'r rhain ag amgylchiadau'r drosedd.

Mae'r gallu i osod cyfraddau cosb gwahanol sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau'r drosedd yn rhoi cyfle i sefydlu hierarchaeth, lle gellir ystyried bod Troseddau Segura Llonydd yn peri mwy neu lai o bryder, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Rhaid i awdurdod lleol bennu a chyhoeddi, ar ei wefan, raddfa sy'n nodi swm pob cosb benodedig a'r amgylchiadau pan fydd y swm hwnnw'n gymwys. Rhaid i'r un swm fod yn gymwys i bob trosedd o'r un math. Mae'n debyg y byddai hysbysiad cosb benodedig a gyflwynwyd am y swm anghywir / heb gydymffurfio â graddfa gyhoeddedig yr awdurdod lleol yn annilys.

Wrth benderfynu cysylltu swm y gosb ag amgylchiadau gallai hyn gynnwys:

- agosrwydd y drosedd at safle penodol neu fath o safle, fel ysgolion, ysbytai, cartrefi gofal
- amser o'r dydd, fel amser brig i gerddwyr, amseroedd casglu/gollwng plant yn yr ysgol
- lleoliad, fel strydoedd cyfyng neu strydoedd ag adeiladau uchel ar bob ochr, ardaloedd ag ansawdd aer gwael neu o fewn Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA)
- math o gerbyd, fel cerbydau mwy o faint neu gerbydau allyriadau uwch (bysiau, cerbydau nwyddau trwm)

**Enghraifft:**

- gall achosion anaml o Segura Llonydd ar strydoedd preswyl olygu y bydd preswylwyr yn dod i gysylltiad ag allyriadau o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, bydd achos o'r fath ond yn effeithio ar nifer bach o bobl, a gall awdurdod lleol benderfynu adlewyrchu hyn drwy gymhwyso swm is fel cosb yn y lleoliadau hyn.

- ar y llaw arall, gall Segura Llonydd fod yn broblem hirhoedlog ac yn ffynhonnell o gwynion ar briffordd y tu allan i glinig iechyd lleol, lle mae staff a chleifion agored i niwed yn dod i gysylltiad ag allyriadau'n aml. Mewn achos o'r fath, efallai y bydd awdurdodau lleol am ystyried a fyddai'n fwy priodol cymhwyso swm ar ben uchaf yr ystod cosbau

- yn yr un modd, gall Segura Llonydd fod yn bryder y tu allan i ysgolion neu'n agos atynt, lle gall plant, rhieni, staff a cherddwyr eraill ddod i gysylltiad ag allyriadau'n fynych ar adegau penodol o'r dydd.

Wrth benderfynu a ddylid cymhwyso un gosb neu raddfa wahaniaethol leol, efallai y bydd awdurdodau am ystyried:

- maint y broblem leol
- mannau lle mae segura llonydd yn broblem hysbys
- cwynion gan y cyhoedd
- costau gorfodi disgwyliedig
- lleoliadau lle gallai allyriadau beri problemau, fel ysgolion ac ysbytai
- lefel debygol cysylltiad y cyhoedd ag allyriadau
- a yw'r drosedd yn digwydd o fewn Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA);
- cysondeb â pholisïau lleol ehangach ynghylch ansawdd aer, trafnidiaeth a seinweddau

Nid yw'r darpariaethau cyfreithiol yn cyfyngu ar yr hyn y gall awdurdodau lleol ei ystyried yn amgylchiadau perthnasol wrth bennu strwythurau cosb. Er enghraifft, os bydd Segura Llonydd yn digwydd o fewn ffiniau ardal rheoli ansawdd aer, mae cwmpas Rheoliadau 2003 yn golygu y gall awdurdodau lleol nodi bod hyn yn amgylchiad perthnasol ac y gallent gysylltu swm y gosb â'r amgylchiadau hyn, gan gymhwyso cosb uwch yn yr ardaloedd hyn.

Efallai y bydd awdurdodau lleol hefyd am ystyried mater troseddau mynych, a ph'un a ddylid cynyddu cosbau mewn achosion o'r fath. Efallai y bydd angen ystyried sut i sicrhau y gallant nodi'n gywir bod gyrwyr wedi derbyn hysbysiad cosb benodedig o'r blaen am Drosedd Segura Llonydd.

Ym mhob achos ni all awdurdod lleol fynd y tu hwnt i'r uchafswm cosb a ganiateir fel y darperir ar ei gyfer o dan Reoliadau 2003 (fel y'u diwygiwyd), sef £150 ar hyn o bryd.

Er nad yw'n hollgynhwysfawr, mae'n debygol y bydd y rhestr ganlynol o faterion yn berthnasol wrth bennu strwythurau cosb:

- i ba raddau y mae Segura Llonydd yn broblem yn lleol
- cost ddisgwyliedig camau gorfodi
- troseddau mynych
- i ba raddau y gallai'r cyhoedd, yn enwedig grwpiau agored i niwed, ddod i gysylltiad ag allyriadau
- lleoliadau lle gallai allyriadau beri problemau, fel ffyrdd cyhoeddus o amgylch ysgolion ac ysbytai
- gwybodaeth am fannau problemus, fel safleoedd tacsis ar ffyrdd cyhoeddus
- polisïau trafnidiaeth gynaliadwy lleol
- cwynion gan y cyhoedd
- pa mor hawdd neu heriol fydd hysbysu gyrwyr o'r amgylchiadau/swm y gosb os byddant yn gwrthod diffodd eu hinjan
- amcangyfrif o nifer y bobl y mae Segura Llonydd yn effeithio arnynt mewn lleoliadau penodol
- agosrwydd at fannau gwyrdd e.e. parciau
- presenoldeb Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA)
- gallu gyrwyr i dalu
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Wrth orfodi mewn ardal newydd am y tro cyntaf, argymhellir na ddylid cyflwyno unrhyw gosbau ar y diwrnod(au) gorfodi cyntaf. Yn hytrach, gellir manteisio ar y cyfle i gyflwyno ac egluro polisi gwrth-segura'r awdurdod lleol, a'r ffaith bod segura yn drosedd y bydd yr awdurdod yn ei gorfodi. Efallai y bydd awdurdodau lleol am ystyried ategu eu gweithgareddau gorfodi gyda thaflenni gwybodaeth y gall modurwyr fynd â nhw i'w darllen, neu drwy gyfeirio gyrwyr at gyfeiriad gwefan.

Dim ond os bydd gyrrwr yn gwrthod diffodd ei injan pan fydd swyddog gorfodi yn gofyn iddo wneud hynny ac yn parhau i fod yn llonydd y caiff trosedd ei chyflawni, h.y. os bydd yn gyrru i ffwrdd neu'n diffodd ei injan, nid oes trosedd wedi'i chyflawni.

Un ffactor a allai ddylanwadu ar benderfyniad rhai pobl i ddiffodd eu hinjan neu yrru i ffwrdd yw swm y gosb. Felly, er mwyn i yrwyr wneud penderfyniad gwybodus, pan fydd swyddog gorfodi yn gofyn i yrrwr ddiffodd injan ei gerbyd, efallai y bydd awdurdodau lleol am ystyried a ddylai swyddogion gorfodi hysbysu'r gyrrwr o swm y gosb fel rhan o'r cais neu'r rhybudd.

## Pennu amgylchiadau / lleoliadau

Mae Rheoliadau 2003 yn rhoi pŵer eang i awdurdodau lleol i gysylltu amgylchiadau â swm y gosb (o fewn yr ystod ragnodedig). Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd awdurdodau lleol sy'n dewis arfer y pŵer hwn yn gwneud hynny i dargedu ardaloedd problemus.

Os bydd awdurdod lleol yn dewis cysylltu symiau'r gosb ag amgylchiadau, rhaid iddo bennu a chyhoeddi graddfa sy'n dangos holl symiau'r gosb benodedig a'r amgylchiadau sy'n gymwys i bob swm cyn i Drosedd Segura Llonydd ddigwydd. Os na fydd yn gwneud hyn, mae'n debygol na fyddai unrhyw hysbysiad cosb benodedig a gyflwynir yn orfodadwy, ac yn yr un modd os cyflwynir hysbysiad cosb benodedig am y swm anghywir mae'n debygol y bydd yr hysbysiad hwnnw yn annilys hefyd.

Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu defnyddio'r dull hwn, bydd angen iddo ystyried sut i ddiffinio'r amgylchiadau cymwys yn glir (gallai hyn gynnwys yr ardaloedd y mae'n berthnasol iddynt os yw hynny'n amgylchiad perthnasol).

**Enghraifft:**

Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu targedu ardaloedd y tu allan i ysgolion, bydd angen iddo ystyried sut i ddiffinio'r ardal honno, a fydd y drefn yn gymwys ar adegau penodol o'r dydd yn unig, a sut y bydd yn hysbysu gyrwyr (e.e. cyhoeddi gwybodaeth ar wefan yr awdurdod lleol fel sy'n ofynnol yn statudol, ond efallai y bydd awdurdodau lleol hefyd yn dymuno gosod hysbysiadau mewn lleoliadau penodol lle bo hynny'n briodol).

Efallai mai'r ateb symlaf fydd dynodi rhai ffyrdd o amgylch y safle lle gwyddys bod gyrwyr yn stopio. Yna dylid nodi'r ffyrdd hyn yn y graddfeydd cyhoeddedig a gellir eu cyhoeddi hefyd fel rhan o unrhyw ddulliau eraill a ddefnyddir i hysbysu'r cyhoedd sy'n briodol ym marn yr awdurdod lleol.

## Cyhoeddi graddfeydd cosb lleol

O dan reoliad 13 o Reoliadau 2003, os bydd awdurdod lleol yn dewis cymhwyso symiau cosb gwahanol i amgylchiadau neu ardaloedd gwahanol, rhaid iddo gyhoeddi graddfa sy'n nodi pob swm a'r amgylchiadau y mae'n gymwys iddynt.

At ddibenion Rheoliadau 2003, mae "cyhoeddi" yn golygu cyhoeddi ar wefan yr awdurdod. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud hyn, ac efallai y byddant hefyd am ddibynnu ar ddulliau cyhoeddi eraill. Er enghraifft: gosod hysbysiadau ar ddodrefn stryd / polion lamp ar hyd ffyrdd sy'n dod o fewn lleoliadau cosb penodol, taflenni, llythyrau swyddogol i breswylwyr, a llythyrau i rieni plant ysgol, ac ati.

Rhaid i awdurdodau lleol hefyd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau gorfodi, hysbysiadau cosb benodedig, arwyddion a deunyddiau ategol ar gael yn ddwyieithog (yn Gymraeg a Saesneg), ac nad yw'r naill iaith na'r llall yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r llall.

Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol i sicrhau bod gyrwyr yn ymwybodol o'r symiau cosb perthnasol a'r sefyllfaoedd y maent yn gymwys iddynt.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid drwy Gronfa Gymorth Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol er mwyn helpu i dalu costau datblygu a chyhoeddi graddfeydd cosb.

### Rhoi gwybod am broblem segura llonydd

Efallai y bydd awdurdodau hefyd am ddarparu llwybr syml i breswylwyr godi pryderon am broblemau segura llonydd mynych. Gall adroddiadau gan y cyhoedd helpu i nodi lleoliadau â blaenoriaeth ar gyfer gwaith ymgysylltu, monitro a, lle bo angen, gamau gorfodi wedi'u targedu.

Gall awdurdodau lleol ddarparu platfform i alluogi'r cyhoedd i godi pryderon am broblemau segura llonydd mynych. Gall yr wybodaeth hon fod o gymorth i awdurdodau wrth nodi mannau problemus ar gyfer camau gorfodi posibl.

Mae ffurflenni ar-lein yn ffordd effeithiol o alluogi'r cyhoedd i godi materion a sicrhau bod gwybodaeth hanfodol yn cael ei chofnodi, gan gynnwys union leoliad, amlder a hyd y problemau segura. Fodd bynnag, gall awdurdodau hefyd ystyried darparu llwybrau adrodd amgen, gan gynnwys e-bost, ffôn, platfformau adrodd presennol, ac adborth a gesglir drwy waith ymgysylltu â chymunedau neu waith partneriaeth.

Efallai y bydd awdurdodau lleol am fapio'r lleoliadau lle mae Segura Llonydd yn broblem fynych ac ystyried i ba raddau y mae poblogaethau'n dod i gysylltiad ag allyriadau. Mewn achosion lle mae Segura Llonydd yn digwydd yn aml, a lle mae'r cyhoedd yn dod i gysylltiad ag allyriadau yn rheolaidd, gellid rhoi blaenoriaeth i weithredu yn y lleoliadau hyn.

## Gorfodi cosbau penodedig ar gyfer troseddau segura llonydd

### Tîm gorfodi

Mae Rheoliadau 2003 yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol awdurdodi unrhyw swyddogion o'r awdurdod, neu bersonau eraill, i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig am Droseddau Segura Llonydd.

Mae Troseddau Segura Llonydd yn digwydd ar y briffordd gyhoeddus, felly, ni ellir cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig am Segura Llonydd ar eiddo preifat fel meysydd parcio (mae hyn yn cynnwys meysydd parcio archfarchnadoedd, ysbytai, meddygfeydd a bwytai bwyd brys), gorsafoedd bysiau neu safleoedd tacsis ar dir preifat, a baeau ambiwlans ar dir ysbytai ac ati.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am benderfynu ar yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer eu gweithgareddau gorfodi a sicrhau eu bod nhw a'u swyddogion gorfodi yn ymwybodol o'r gofynion statudol fel y darperir ar eu cyfer o dan Reoliadau 2003, ac yn cydymffurfio â nhw. Gall cyfnod paratoi byr sy'n canolbwyntio ar wybodaeth a rhybuddion fod yn ddefnyddiol wrth gyflwyno trefniadau gorfodi mewn ardal newydd am y tro cyntaf.

Pan fo gan swyddog awdurdodedig achos rhesymol dros gredu bod gyrrwr yn cyflawni Trosedd Segura Llonydd, dylai camau gorfodi ddilyn trefn glir fel y disgrifir yn yr adran Cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig.

### Hysbysiadau cosb benodedig

Mae hysbysiadau cosb benodedig yn rhoi cyfle i'r derbynnydd gyflawni unrhyw atebolrwydd am euogfarn am drosedd drwy dalu swm penodedig o arian o fewn cyfnod penodol. Fe'u defnyddir fel arfer ar gyfer troseddau lefel isel ac maent yn darparu dewis arall yn lle erlyniad.

### Cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig

Pan fo gan swyddog awdurdodedig achos rhesymol dros gredu bod gyrrwr yn cyflawni Trosedd Segura Llonydd, dylai siarad â'r gyrrwr.

Dylai wneud y canlynol:

1. cyflwyno ei hun
2. esbonio ei fod o'r farn bod trosedd segura llonydd yn cael ei chyflawni
3. gofyn i'r gyrrwr ddiffodd yr injan.

Os bydd y gyrrwr yn cydymffurfio, neu'n gyrru i ffwrdd, yna nid oes unrhyw drosedd wedi digwydd ac ni ellir cyflwyno hysbysiad cosb benodedig.

Os na fydd y gyrrwr yn cydymffurfio, gall y person awdurdodedig gyflwyno hysbysiad cosb benodedig fel dewis arall yn lle erlyniad.

Felly, cyn rhoi hysbysiad cosb benodedig, rhaid bod y gyrrwr yn gyrru cerbyd ag injan tanio mewnol (mae hyn yn cynnwys cerbydau hybrid pan fo'r injan tanio mewnol yn segura h.y. nid yw'n rhedeg ar y batri yn unig), rhaid gofyn i'r gyrrwr ddiffodd injan ei gerbyd a rhaid bod y gyrrwr naill ai wedi gwrthod gwneud hynny gan aros yn yr un lleoliad gydag injan ei gerbyd yn rhedeg,

Nid yw'r gyfraith yn diffinio am ba hyd y mae'n rhaid i gerbyd fod yn llonydd tra bod ei injan yn rhedeg er mwyn cyflawni trosedd. Felly, efallai y bydd awdurdodau lleol am fabwysiadu dull pragmatig o ymdrin â hyn, gallai fod yn ddefnyddiol nodi bod Rheol 123 o Reolau'r Ffordd Fawr yn datgan pan fo cerbyd yn llonydd ac yn debygol o aros yn llonydd am fwy na chwpl o funudau, dylai gyrwyr ddiffodd eu hinjan ond dylid hefyd cofio nad yw Rheolau'r Ffordd Fawr yn gyfreithiol rwymol. Efallai y bydd awdurdodau lleol am ystyried a ddylai eu swyddogion gorfodi amseru pa mor hir y mae cerbyd wedi bod yn Segura'n Llonydd, efallai y byddant hefyd eisiau cyhoeddi canllawiau ar y mater hwn a'u cynnwys yn yr wybodaeth a gyhoeddir ganddynt ynghylch symiau cosbau.

Fel cam ymarferol, gallai awdurdodau lleol fabwysiadu trothwy o **ddwy funud** er mwyn helpu swyddogion i arsylwi a gorfodi ymddygiad segura mewn ffordd gyson sy'n adlewyrchu rheolau'r ffordd fawr. Gall pennu trothwy helpu i sicrhau trefniadau gorfodi cymesur a chyson ledled ardal.

Os bydd awdurdodau lleol yn dymuno casglu tystiolaeth fideo, er nad yw hyn wedi'i wahardd o dan Reoliadau 2003, dylai awdurdodau lleol geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain ar y mater hwn.

Wrth gyflwyno cosb i yrrwr, dylai'r swyddog gorfodi esbonio'r rhesymau dros swm penodol y gosb sy'n berthnasol yn yr achos hwn, gan gyfeirio at raddfa gyhoeddedig yr awdurdod lleol.

Dylid gofyn i'r gyrrwr ddarparu'r canlynol:

- Ei enw a'i gyfeiriad
- Ei ddyddiad geni
- Enw perchennog y cerbyd (os nad y gyrrwr yw'r perchennog)

Os na fydd y gyrrwr yn darparu'r wybodaeth ofynnol i'r swyddog gorfodi pan ofynnir amdani, mae hynny ynddo'i hun yn drosedd.

### Beth ddylai'r hysbysiad cosb benodedig ei gynnwys

Rhaid cyflwyno hysbysiad cosb benodedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a heb fod yn hwyrach na 24 awr ar ôl i'r drosedd gael ei chyflawni. Os na chyflwynir hysbysiad cosb benodedig ar adeg y drosedd, rhaid ei bostio o fewn y cyfnod o 24 awr. Os na chydymffurfir â'r cyfnod amser hwn, nid yw'r hysbysiad cosb benodedig yn ddilys.

Rhaid i hysbysiad cosb benodedig ddarparu'r wybodaeth ganlynol, a rhaid ei gyhoeddi'n ddwyieithog:

- enw a chyfeiriad y person y cyflwynir yr hysbysiad iddo
- rhif cofrestru'r cerbyd
- dyddiad y drosedd
- swm y gosb
- manylion ynghylch ble y dylid anfon taliad, ac unrhyw ohebiaeth
- gwybodaeth am wneud cais am wrandawiad, gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer gwneud hynny
- dull(iau) talu derbyniol
- y cyfnod ar gyfer talu'r gosb
- y canlyniadau os na chaiff y gosb ei thalu

### Cadw cofnodion

Rhaid i awdurdodau gorfodi gadw cofnodion o bob hysbysiad cosb benodedig a gyflwynir ac unrhyw dystiolaeth rhag ofn y bydd yr hysbysiad cosb benodedig yn mynd i'r llys.

Bydd hyn yn cynnwys:

• Pob hysbysiad cosb benodedig a gyflwynwyd a'r penderfyniadau a wnaed ar bob cam o'r cam cyflwyno hyd at y taliad neu'r erlyniad;

• Unrhyw sylwadau a ddaeth i law yn erbyn pob hysbysiad cosb benodedig;

• Y dystiolaeth y mae pob hysbysiad cosb benodedig yn seiliedig arni, rhag ofn i'r achos fynd i'r llys.

Mae hyn yn cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer troseddau amgylcheddol.[49]

Mae cofnodion effeithiol yn cefnogi tryloywder, cysondeb wrth orfodi, ac yn helpu i fonitro a gwerthuso gweithgarwch gorfodi lleol. Gallant hefyd helpu i werthuso effeithiolrwydd y Rheoliadau diwygiedig.

Mae templed wedi'i ddarparu yn Atodiad 7 er mwyn helpu i gasglu a chofnodi data blynyddol ar hysbysiadau cosb benodedig am Droseddau Segura Llonydd a gyflwynir yn ardal pob awdurdod lleol.

### Methiant i dalu

Ni chaniateir erlyn gyrrwr am Drosedd Segura Llonydd yn ystod y cyfnod talu oni bai ei fod wedi hysbysu ei fod wedi gwneud cais am wrandawiad (yn yr achos hwnnw ni fyddai'r hysbysiad cosb benodedig yn daladwy mwyach). Os na chaiff y gosb benodedig ei thalu o fewn y cyfnod dynodedig, ac nad yw'r gyrrwr wedi gwneud cais am wrandawiad, bydd swm y gosb yn cynyddu 50% o swm y gosb wreiddiol. Er enghraifft, byddai cosb benodedig o £125 yn cynyddu i £187.50 os na chaiff yr hysbysiad cosb benodedig gwreiddiol ei dalu.

Os na fydd cosb benodedig wedi'i thalu o hyd ar y cam hwn, gall awdurdod lleol fynd ati i adennill y ddyled drwy system y Llys Sirol.

### Tynnu hysbysiad cosb benodedig yn ôl

Gellir tynnu hysbysiad cosb benodedig yn ôl os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu na ddylai fod wedi'i gyflwyno. Os felly, rhaid hysbysu'r derbynnydd a rhaid ad-dalu unrhyw daliad a wnaed.

## Cymorth sydd ar gael i awdurdodau lleol

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu ystod o gynlluniau cyllid grant a allai gefnogi gweithgarwch gwrth-segura lleol, neu fesurau cysylltiedig i wella iechyd a diogelwch, annog dulliau teithio llesol, a lleihau'r ddibyniaeth ar geir. Er nad yw'r rhestr isod yn hollgynhwysfawr, mae'n cynnwys amrywiaeth o gynlluniau cyllido gan Lywodraeth Cymru y gall awdurdodau lleol wneud cais iddynt. Gall y cynlluniau hyn newid – ewch i wefan Llywodraeth Cymru i weld pa gyllid sydd ar gael ar hyn o bryd, gofynion y cynllun, a therfynau amser ar gyfer gwneud cais.

[49] Canllawiau ar ddefnyddio hysbysiadau cosbau penodedig ar gyfer troseddau amgylcheddol

### Cronfa Gymorth Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol

Yn cefnogi uchelgeisiau hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer aer glanach, cymunedau iachach ac amgylcheddau mwy gwydn. Mae cyllid cyfalaf a refeniw ar gael er mwyn cymryd camau lleol i leihau lefelau cysylltiad â llygredd aer a gwella ansawdd yr amgylchedd sain.

### Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau

Wedi'i gynllunio i wella hygyrchedd a diogelwch mewn cymunedau, yn enwedig i ysgolion, ac annog pobl i gerdded a beicio ar gyfer teithiau byr. Gall y grant gefnogi gwelliannau sy'n cyfrannu at greu lleoedd a gwella ansawdd bywyd.

### Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol

Yn helpu i gyflawni'r polisïau a'r blaenoriaethau a nodir mewn Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynlluniau Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Rhaid i gynlluniau a ariennir gyfrannu at Llwybr Newydd, sef Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Gall cyllid gefnogi buddsoddiadau mewn diogelwch ffyrdd a theithio llesol, a mesurau i helpu pobl i newid ymddygiad.

### Cronfa Teithio Llesol

Mae'r cynllun hwn yn darparu cyllid i wella llwybrau cerdded, beicio ac olwynion lleol. Mae'r grant yn helpu i ddatblygu llwybrau teithio llesol newydd yn ogystal â darparu cyllid cyfalaf i gyflawni'r cynlluniau.

### Cronfa Diogelwch Ffyrdd

Yn cefnogi diogelwch cymunedol drwy gyllid cyfalaf a refeniw ar gyfer mesurau sy'n ymdrechu i leihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd yng Nghymru. Gallai mesurau gynnwys mentrau addysg a hyfforddiant.

## Adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael â'r broblem

Mae ymdrechion i fynd i'r afael â Segura Llonydd wedi bod yn cynyddu'n gyson, ac yn aml maent yn cynnwys cyfuniad o addysg, newid ymddygiad, mesurau ataliol a phwerau gorfodi. Yng Nghymru, ac ar draws y DU, mae ymdrechion i fynd i'r afael â Segura Llonydd yn canolbwyntio'n bennaf ar godi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad gan annog pobl i gydymffurfio'n wirfoddol, yn ogystal â mesurau ataliol. Gellir cymryd camau gorfodi wedi'u targedu hefyd os nad yw problemau hysbys wedi cael eu datrys yn foddhaol trwy ddulliau eraill.

Mae'r adran hon yn amlinellu enghreifftiau o adnoddau allweddol sydd ar gael i awdurdodau lleol i'w helpu i leihau Segura Llonydd. Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr, a gall awdurdodau lleol nodi adnoddau neu ddulliau eraill sy'n addas i amgylchiadau lleol.

Bwriedir i'r enghreifftiau a ddarperir ddangos arfer da a thynnu sylw at adnoddau a allai gefnogi camau gweithredu lleol.

### Mentrau ac ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol

- **Trafnidiaeth Cymru– Hyrwyddo Teithio Llesol: Canllawiau i awdurdodau lleol**

Yn helpu i leihau Segura Llonydd drwy annog pobl i deithio ar droed, ar olwyn ac ar feic ar gyfer teithiau byr yn ogystal â newid ymddygiad o ran dewisiadau

teithio bob dydd a lleihau'r defnydd o geir mewn lleoliadau risg uchel. Bwriedir i'r canllawiau gael eu defnyddio ochr yn ochr â Phecyn Hyrwyddo Trafnidiaeth Cymru.[50]

- **Pecyn Hyrwyddo Trafnidiaeth Cymru**

Yn darparu deunyddiau addasadwy sy'n barod i'w defnyddio, yn ogystal â chanllawiau ymarferol i gefnogi mentrau newid ymddygiad lleol sy'n annog teithio llesol.[51]

- **Clean Air Day** a **Clean Air Night** (blynyddol, Mehefin ac Ionawr)

Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ar gyfer y DU gyfan sy'n cael eu cydgysylltu gan Global Action Plan sy'n annog camau ymarferol i leihau llygredd aer, gan gynnwys lleihau Segura Llonydd. Mae adnoddau ar gael i awdurdodau lleol, ysgolion, cymunedau a chyflogwyr (e.e. pecynnau cymorth gwrth-segura, cynlluniau gwersi ysgol, a deunyddiau ymgyrchu).[52]

- **Idling Action London – "Engine Off, Every Stop"**

Menter bartneriaeth dan arweiniad bwrdeistrefi Llundain, gyda deunyddiau ymgyrchu a phecynnau cymorth y cyfeiriwyd atynt yn helaeth y tu hwnt i Lundain. Mae'r dull yn canolbwyntio ar addysg, negeseuon iechyd a gwaith ymgysylltu mewn mannau lle mae segura yn broblem hysbys cyn ystyried gorfodi.[53]

- **Pecynnau cymorth Travel for Life**

Rhaglen newid ymddygiad sy'n canolbwyntio ar addysg sy'n cefnogi teithio llesol a chynaliadwy i blant a phobl ifanc. Er mai adnodd ar gyfer Llundain yw hwn, gall ddarparu enghreifftiau defnyddiol ar gyfer mentrau mewn ysgolion.[54]

- **Addewid Twf Gwyrdd**

Addewid cynaliadwyedd gwirfoddol i fusnesau (gan gynnwys camau gweithredu fflyd). Gellir darparu pecyn cymorth a logos i hysbysebu ymrwymiadau i leihau allyriadau trafnidiaeth.[55]

- **Wythnos Gweithredu ar Sŵn**

Wythnos flynyddol sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth am sŵn fel problem sy'n effeithio ar yr amgylchedd ac iechyd cyhoeddus, hyrwyddo camau ymarferol i leihau sŵn ac annog pobl i feddwl am sut mae eu gweithredoedd yn effeithio ar eraill. Gall fod yn ddefnyddiol i gysylltu segura ag effeithiau sŵn ac allyriadau.[56]

### Atebion ffisegol

- **Cynlluniau Strydoedd Ysgol**

---

[50] Hyrwyddo teithio llesol: canllawiau i awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU
[51] Pecyn hyrwyddo teithio llesol | Trafnidiaeth i Gymru
[52] Clean Air Day | Action for Clean Air; Clean Air Night | Global Action Plan; Reducing emissions from transport - Energy Saving Trust; Action for clean air | Build Back Cleaner Air; Cleaner air for communities | Action for Clean Air
[53] Idling Action
[54] TfL Travel for Life - Travel for Life
[55] Addewid Twf Gwyrdd | Busnes Cymru
[56] Noise Action Week | The Institution of Environmental Sciences: The IES

Cyfyngu mynediad i gerbydau modur dros dro o amgylch ysgolion yn ystod amseroedd gollwng a chasglu. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu defnyddio gan sawl awdurdod lleol, gan gynnwys yng Nghymru, i leihau traffig, allyriadau a segura llonydd y tu allan i ysgolion.
Mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ar wella diogelwch ffyrdd o amgylch ysgolion ar gael yma.[57]

- **Cynlluniau monitro ansawdd aer (e.e. SAMHE)**

Gall prosiectau monitro mewn ysgolion gefnogi gweithgarwch codi ymwybyddiaeth, addysgu ac ymgysylltu drwy wneud data ansawdd aer yn weladwy ac yn berthnasol i ddisgyblion, rhieni a staff (e.e. canllaw i athrawon, taflenni gwaith i ddisgyblion a phecynnau data).[58]

- **Arwyddion wedi'u targedu mewn lleoliadau problemus**

Mae arwyddion pwrpasol wedi'u defnyddio mewn lleoliadau segura disgwyliedig fel croesfannau rheilffordd, safleoedd tacsi, ysbytai ac ysgolion i annog gyrwyr i ddiffodd eu hinjans wrth aros.[59]

### Grwpiau ymgyrchu a sefydliadau cymorth

- **Cynllun Adnabod Gweithredwyr Fflyd (FORS)**

Yn darparu canllawiau a phecynnau cymorth ar gyfer gweithredwyr fflyd, gan gynnwys polisïau gwrth-segura ac adnoddau newid ymddygiad gyrwyr a chwalu mythau.[60]

- **Mums for Lungs**

Grŵp ymgyrchu dan arweiniad rhieni i godi ymwybyddiaeth o effeithiau llygredd aer ar iechyd plant, yn enwedig y tu allan i ysgolion. Mae'r deunyddiau'n cynnwys posteri, taflenni a llythyrau templed.[61]

- **Global Action Plan**

Elusen amgylcheddol sy'n cefnogi mentrau newid ymddygiad sy'n mynd i'r afael ag effeithiau llygredd aer ar iechyd, gan gynnwys segura llonydd, gan weithio'n aml gydag awdurdodau lleol, ysgolion a chymunedau. Mae'r deunyddiau'n cynnwys posteri, fideos, templedi taflenni ac asedau y gellir eu lawrlwytho [62]

- **Asthma + Lung UK**

Elusen iechyd sy'n tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng llygredd aer sy'n gysylltiedig â thraffig a chyflyrau anadlol. Gall eu negeseuon seiliedig ar dystiolaeth gefnogi gweithgarwch codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu a arweinir gan addysg.[63]

- **British Heart Foundation**

---

[57] School Streets | Hackney Council
[58] SAMHE
[59] Using behavioural insights to improve air quality in the London Borough of Merton
[60] Anti-Idling and Congestion-Cutting toolkit and driver guide - FORS - Fleet Operator Recognition Scheme
[61] Idling — Mums for Lungs
[62] Global Action Plan | Our lives our planet
[63] Resources + projects for schools | Asthma + Lung UK

Elusen yn y DU sy'n ariannu ymchwil i glefydau'r galon a chylchrediad y gwaed ac yn helpu pobl i ddeall a lleihau risgiau iechyd. Yn darparu negeseuon iechyd y cyhoedd clir ar lygredd aer gyda ffocws cryf ar effeithiau cardiofasgwlaidd, y gellir eu defnyddio ar gyfer deunyddiau ymgyrchu neu ymgysylltu mewn ysgolion.[64]

[64] Air pollution and your heart - BHF

## Atodiad 1. Enghreifftiau o fentrau gwrth-segura o bob cwr o'r DU

Mae'r adran hon yn dangos rhywfaint o'r gwaith cadarnhaol sy'n digwydd ledled y DU i fynd i'r afael ag allyriadau a gwella ansawdd aer. Mae'n darparu amrywiaeth o enghreifftiau go iawn o fentrau a gweithgareddau a allai gynnig ysbrydoliaeth i awdurdodau lleol wrth iddynt ddatblygu neu fireinio eu mentrau gwrth-segura neu newid ymddygiad eu hunain, gan dynnu sylw at arfer da o Gymru a ledled y DU.

**Cyngor Sir Penfro**

Arweiniodd Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir Penfro fenter i fynd i'r afael â segura llonydd, lle treialwyd dull nad oedd yn cynnwys camau gorfodi. Cafodd eu cynlluniau “dim segura” eu treialu mewn dwy ysgol yn y sir.

Yn Ysgol Gymunedol Neyland, trefnwyd prosiect dan arweiniad disgyblion i annog rhieni i ddiffodd eu hinjan wrth gatiau'r ysgol ar adegau gollwng neu gasglu, neu adael y car gartref lle bo modd. Chwaraeodd Grŵp Rhyfelwyr Eco’r ysgol, mewn cydweithrediad â Swyddog Rheoli Llygredd Cyngor Sir Penfro, ran allweddol wrth gyflawni’r prosiect, a oedd yn cynnwys gosod arwyddion yn cynghori rhieni ac ymwelwyr eraill i ddiffodd eu hinjan wrth iddynt aros, yn ogystal ag ymgysylltu’n uniongyrchol â rhieni i gefnogi llwyddiant y cynllun. Helpodd Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd i ddatblygu'r fenter a dylunio a chynhyrchu'r arwyddion.[65]

**Cyngor Caerdydd**

Ym mis Ionawr 2020, lansiodd Cyngor Caerdydd bum cynllun Stryd Ysgol fel prosiectau peilot yn Ysgol Gynradd Melin Gruffydd, Ysgol Gynradd Pencaerau, Ysgol Gynradd Peter Lea, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llandaf ac Ysgol Gynradd Lansdowne.

Ers hynny mae'r fenter wedi ehangu i 19 cynllun Stryd Ysgol, gan leihau traffig mewn 22 o ysgolion ledled y ddinas. Roedd Strydoedd Ysgol yn elfen allweddol o raglen ysgolion teithio llesol ehangach y cyngor, sy'n helpu ysgolion i ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Teithio Llesol. Roedd y rhaglen hon yn cynnwys ymyriadau fel hyfforddiant beicio, llochesi beiciau, traciwr teithio WOW Living Streets, a fflydoedd beiciau/sgwteri ysgol. Bu'r tîm ysgolion teithio llesol yn cydweithio'n agos â'r adran addysg i sicrhau bod gan ysgolion newydd a ariennir drwy Fand B Llywodraeth Cymru ddarpariaethau teithio llesol integredig.

Rhoddwyd cynllun Strydoedd Ysgol Cyngor Caerdydd ar waith drwy osod cyfyngiadau mynediad wedi'u hamseru ar gerbydau gan ddefnyddio camerâu adnabod rhifau cerbydau yn awtomatig (ANPR) i orfodi'r cynllun o dan bwerau Troseddau Traffig sy'n Symud. Gallai preswylwyr, deiliaid bathodynnau glas, gofalwyr, a busnesau/safleoedd cymunedol wneud cais am drwyddedau Strydoedd Ysgol am ddim. Roedd y trwyddedau hyn wedi'u cysylltu â thrwyddedau parcio preswylwyr, lle bo'n berthnasol, er mwyn symleiddio'r broses gwneud cais. Roedd

---

[65] Pupils lead project to get parents to switch off engines at the school gates – The Pembrokeshire Herald; Saundersfoot councillor commends ‘positive response’ to switch-off engines outside school | tenby-today.co.uk

cydweithio â thimau gorfodi a gwasanaethau parcio'r Cyngor yn hanfodol wrth roi cynllun Strydoedd Ysgol ar waith.[66]

### Cyngor Bro Morgannwg

Lansiodd Cyngor Bro Morganwg brosiect Stryd Ysgol yn Ysgol Gynradd Fairfield yn 2023, yn dilyn cydweithio rhwng y Walk Wheel Cycle Trust yng Nghymru, y Cyngor, yr ysgol, a rhanddeiliaid lleol.

Mae Heol Dryden ym Mhenarth wedi profi tagfeydd traffig ac wedi peri pryderon o ran diogelwch ers amser maith yn ystod amseroedd gollwng a chasglu plant o'r ysgol, gan effeithio ar breswylwyr a chymuned yr ysgol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, cyflwynwyd Stryd Ysgol y tu allan i Ysgol Gynradd Fairfield, gan gau'r ffordd i draffig cerbydau modur ar amseroedd dechrau a gorffen yr ysgol gan gynnal mynediad i breswylwyr a phobl sy'n defnyddio dulliau teithio llesol. Rhoddwyd y Stryd Ysgol ar waith fel rhan o brosiect ehangach, sef Prosiect Dylunio Stryd Fairfield, gan roi pwyslais cryf ar gynnwys y gymuned, cyd-ddylunio a mewnbwn gan ddisgyblion, rhieni, preswylwyr a rhanddeiliaid lleol.

Cynhaliwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu a gweithdai i ddeall pryderon a blaenoriaethau lleol. Chwaraeodd disgyblion o Ysgol Gynradd Fairfield ran weithredol hefyd, gan gynnal archwiliad stryd i nodi rhwystrau i gerdded, olwyno a beicio a llywio’r dyluniad terfynol.

Nod y prosiect oedd lleihau traffig ar adegau brig, yn ogystal â chreu amgylchedd mwy diogel ac iach o amgylch yr ysgol, annog teithio llesol, a meithrin cefnogaeth leol o blaid newid.

Roedd adborth gan yr ysgol a’r gymuned leol ar ôl rhoi'r cynllun ar waith yn dangos bod plant, rhieni a gofalwyr yn teimlo’n fwy diogel ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol a'u bod yn gadarnhaol ynglŷn â’r gwelliannau i amgylchedd y stryd. Tynnodd arweinwyr yr ysgol sylw at y manteision o ran diogelwch a llesiant i ddisgyblion sy'n defnyddio safle'r ysgol.[67]

### Saffron Walden

Nod Prosiect Aer Glân Saffron Walden oedd codi ymwybyddiaeth a lleihau lefelau llygredd aer ymhlith myfyrwyr, staff a rhieni. Mae ysgolion wedi bod yn rhedeg digwyddiadau gyda rhieni, yn cynnal gwasanaethau boreol, yn monitro ansawdd aer, ac yn creu cynlluniau teithio cynaliadwy. Bu pwyslais hefyd ar fynd i'r afael â segura llonydd diangen drwy rannu'r neges bod hyn yn arbed tanwydd ac arian ac yn lleihau allyriadau y tu mewn a'r tu allan i'r car.[68]

---

[66] Strydoedd Ysgol: Cyngor Caerdydd [HTML] | LLYW.CYMRU; Strydoedd Ysgol; Sefydlu mwy o Strydoedd Ysgol ar gyfer dechrau tymor ysgol newydd | Diogelwch Ffyrdd Cymru

[67] Traffig heol cythryblus ym Mhenarth yn gweld lansio Stryd Ysgol newydd - Walk Wheel Cycle Trust; Dechrau llwyddiannus i gau ffyrdd ysgol am y tro cyntaf i hyrwyddo teithio llesol

[68] School Engagement & Education - Uttlesford District Council; Uttlesford District Council: Saffron Walden Clean Air Project | Local Government Association

### Cyngor Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf – "Kick the Habit"

Menter i godi ymwybyddiaeth yw ymgyrch "Kick the Habit" a ddyluniwyd i leihau segura llonydd diangen drwy dynnu sylw at y risgiau iechyd cysylltiedig. Mae'r ymgyrch wedi'i thargedu'n bennaf at fannau lle mae cerbydau'n segura'n aml, gan gynnwys ysgolion, meithrinfeydd, clinigau ac ysbytai.

Drwy osod arwyddion gwrth-segura ac ysgogiadau gweladwy wrth fynedfeydd safleoedd a mannau aros, mae'r ymgyrch yn tynnu sylw at effeithiau segura ar blant, menywod beichiog, a phobl â chyflyrau sy'n effeithio ar y galon a'r ysgyfaint. Mae pecynnau adnoddau y gellir eu lawrlwytho ar gael ar wefan y Cyngor hefyd er mwyn sicrhau negeseuon cyson mewn gwahanol leoliadau.[69]

### Cyngor Dinas Portsmouth – "When You Stop, Engine Stops"

Canolbwyntiodd yr ymgyrch ar addysg a chodi ymwybyddiaeth, gan annog gyrwyr i ddiffodd eu hinjan pan fydd eu cerbyd yn llonydd ac os bydd yn ddiogel i wneud hynny, gan annog gyrwyr i newid eu hymddygiad yn wirfoddol yn hytrach na chymryd camau gorfodi ar unwaith. Roedd yr ymgyrch yn cynnwys neges glir a syml i'r cyhoedd, a ategwyd gan ddeunyddiau gweledol a oedd yn tynnu sylw at y llygredd a gynhyrchir gan segura llonydd, yn ogystal â hysbysebion awyr agored a phosteri mewn ardaloedd lle mae lefelau uchel o lygredd traffig. Cyflwynodd y cyngor adnodd adrodd ar-lein hefyd, gan alluogi preswylwyr i roi gwybod am leoliadau lle mae segura llonydd yn digwydd yn aml, er mwyn helpu i nodi lleoliadau â blaenoriaeth ar gyfer camau gweithredu pellach.

Dangosodd y gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a'r arolygon a gynhaliwyd gan y cyngor i ddeall agweddau at segura llonydd ac ymwybyddiaeth o'r ymgyrch fod ymwybyddiaeth o'r ymgyrch wedi cynyddu yn dilyn ei lansio a bod llawer o yrwyr yn cydnabod y gall diffodd eu hinjan pan fo'r cerbyd yn llonydd helpu i leihau llygredd aer, er nad oedd pob gyrrwr yn diffodd eu hinjan yn rheolaidd ym mhob sefyllfa.[70]

### Norwich (Prifysgol Dwyrain Anglia, Cyngor Dinas Norwich, Transport for Norwich)

Cynhaliwyd treial pum wythnos gan Brifysgol East Anglia (UEA), mewn cydweithrediad â Chyngor Dinas Norwich a Chyngor Sir Norfolk, i brofi sut y gallai arwyddion sy'n seiliedig ar ymddygiad ddylanwadu ar ymddygiad gyrwyr a lleihau lefelau segura llonydd.

Gosodwyd arwyddion ar gyffordd a reolir gan oleuadau traffig mewn ardal lle mae lefelau nitrogen deuocsid yn uwch na'r terfynau, gan ddefnyddio negeseuon yn seiliedig ar theorïau seicolegol dylanwad cymdeithasol. Roedd y negeseuon a

[69] Anti-idling campaign: Kick the Habit | Bath and North East Somerset Council; Anti Idling Team | The HUB
[70] When you stop, engine stops – new anti-engine idling campaign launches - Cleaner Air Portsmouth; Engine Idling Wave Two - Your City, Your Say survey research; Campaign awareness of advertisement - Your City, Your Say survey research

brofwyd yn cynnwys: “Join other responsible drivers”, “Think about your actions”, “You will improve air quality”.

Dangosodd canfyddiadau allweddol fod cyfran y gyrwyr a oedd wedi diffodd eu hinjan wedi cynyddu o linell sylfaen o 9.6% i 17% pan oedd arwyddion i'w gweld. Roedd negeseuon ynghylch normau cymdeithasol (sy'n tynnu sylw at yr hyn yr oedd eraill yn ei wneud) yn arbennig o effeithiol, a pharhaodd rhywfaint o newid ymddygiad hyd yn oed ar ôl i'r arwyddion gael eu tynnu i lawr, sy'n dangos eu bod wedi cael effaith barhaol o bosibl.

Dangosodd y treial hefyd fod gyrwyr yn fwy tebygol o newid ymddygiad pan oedd negeseuon yn cyfeirio at ymddygiad cyfunol neu'n apelio at gyfrifoldeb a normau cymdeithasol, yn hytrach na rhoi cyfarwyddiadau'n unig.[71]

### Cyngor Swydd Nottingham – Ymgyrch Dim Segura

Datblygodd Cyngor Swydd Nottingham ymgyrch “Dim Segura” i fynd i’r afael â segura llonydd diangen, gan roi pwyslais penodol ar ysgolion. Mae'r ymgyrch yn cynnwys dull seiliedig ar addysg, ac yn cynnig pecyn cymorth dim segura i ysgolion, sy'n darparu canllawiau cam wrth gam, llythyrau templed, deunydd addewid a syniadau ar gyfer gweithgareddau.

Caiff disgyblion eu hannog i gymryd rhan drwy gynnal gwasanaethau, dylunio posteri a baneri, a gweithgareddau ymgysylltu ar adegau gollwng a chasglu plant o’r ysgol. Mae'r ymgyrch hefyd yn hyrwyddo “Addewid Dim Segura” i rieni a gofalwyr, a ategir gan lythyrau templed a sticeri cerbydau, i atgyfnerthu newid ymddygiad wrth gatiau'r ysgol.[72]

### Cyngor Swydd Warwick

Mae ymgyrch Ceir Segur Cyngor Swydd Warwick yn rhan o'r rhaglen Ysgolion Diogel ac Egnïol ehangach. Mae'r rhaglen yn darparu addysg diogelwch ffyrdd, adnoddau digidol ac ymgyrchoedd i ysgolion sydd â'r nod o hyrwyddo ymddygiadau teithio mwy diogel a chynaliadwy, gan gynnwys lleihau lefelau segura llonydd a defnydd ceir wrth gatiau'r ysgol.

Fel rhan o hyn, nod ymgyrch ‘Kids Need Clean Air’ yw addysgu gyrwyr am fanteision diffodd eu hinjan pan fydd eu cerbyd yn llonydd. Derbyniodd yr ysgolion a gymerodd ran faneri i'w harddangos ar reiliau'r ysgol, yn annog pobl a oedd yn aros y tu allan i ddiffodd eu hinjan er mwyn cael aer glanach. Roedd y deunyddiau ategol hefyd yn cynnwys animeiddiad digidol yn cynnig cyngor i rieni a gofalwyr, a chynnwys ar gyfer cylchlythyrau ysgolion.[73]

### Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

[71] ‘Social influence’ deters engine idling, researchers suggest – AirQualityNews
[72] No Idling Campaign;
[73] Kids need clean air! Drivers asked to switch off their engines when parked, waiting or stationary - Warwickshire County Council; Gwella'r Rhaglen Ysgolion Gweithgar ('Active Schools: The Safe and Active Schools Programme - Warwickshire County Council

Mae Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi bod yn cymryd camau i leihau allyriadau ar draws ei gweithrediadau. Mae hyn wedi cynnwys mesurau i gyfyngu ar amseroedd segura mewn adrannau brys er mwyn amddiffyn iechyd cydweithwyr a chleifion.

Darparwyd systemau ffan cludadwy ar gyfer rhai cerbydau sy'n gorfod aros am amseroedd hir mewn adrannau brys. Gall y ffaniau amlswyddogaethol di-lafn hyn wresogi ac oeri, yn ogystal â dal llwch yn yr awyr, alergenau, arogleuon, bacteria a llygryddion eraill. Bwriedir i'r unedau hyn gynnal cysur thermol heb fod angen gadael i'r injan segura, gan leihau allyriadau diesel.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cyflwyno Shorelines mewn rhai ysbytai. Cysylltiadau trydan allanol yw'r rhain sy'n caniatáu i ambiwlansys ddefnyddio trydan tra byddant wedi parcio. Mae hyn wedi bod yn helpu i leihau segura, cynnal oes batri cerbydau, a sicrhau y gellir parhau i bweru cyfarpar hanfodol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod cyfrifoldeb personol a phroffesiynol pwysig ei staff wrth ddefnyddio Shorelines a ffaniau di-lafn i amddiffyn eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch cleifion, cydweithwyr a phobl eraill sy'n gweithio yn yr amgylcheddau hyn.[74]

**Gofal Iechyd Northumbria Dim Segura**

Mae nifer o sefydliadau'r GIG ledled Gogledd-ddwyrain Lloegr wedi cydweithio i leihau segura diangen gan gerbydau ac ambiwlansys y tu allan i adrannau brys, gan gydnabod yr ardaloedd hyn fel lleoliadau lle gall cleifion agored i niwed, staff ac ymwelwyr ddod i gysylltiad â lefelau uwch o lygredd aer.

Yn ystod haf 2024, ymrwymodd Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Gofal Iechyd Northumbria, Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbytai Newcastle Upon Tyne (NUTH) a Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd-ddwyrain Lloegr (NEAS) i leihau segura lle nad yw'n angenrheidiol yn glinigol. Cefnogwyd yr ymrwymiad hwn yn ffurfiol gan Brif Weithredwyr Gofal Iechyd Northumberland a NUTH, ochr yn ochr â chyn-Brif Weithredwr NEAS, gyda chais ar y cyd i griwiau ambiwlans ddiffodd yr injan, lle bo'n ddiogel gwneud hynny, wrth aros y tu allan i adrannau brys. Cadarnhawyd yr ymrwymiad wedi hynny gan Brif Weithredwr newydd y gwasanaeth ambiwlans.

Gall segura diangen gan ambiwlansys a cherbydau eraill arwain at lygryddion, fel nitrogen deuocsid, yn cronni mewn ardaloedd yn union y tu allan i adrannau brys. Gall yr allyriadau hyn effeithio'n negyddol ar ansawdd aer a pheri risgiau iechyd, yn enwedig i blant, menywod beichiog, pobl hŷn, a'r rhai sydd â chyflyrau anadlol neu gardiofasgwlaidd yn barod, yn ogystal â staff sy'n gweithio yn yr amgylcheddau hyn. Gall effeithiau tebyg godi o gerbydau cleifion, staff ac ymwelwyr sy'n aros yn llonydd gyda'r injans yn rhedeg ar safleoedd ysbytai.

---

[74] Cadw'n gynnes yn y tywydd oer a lleihau allyriadau diesel - Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Yn dilyn yr ymrwymiad cychwynnol, cafodd y dull gweithredu ei ehangu. Flwyddyn yn ddiweddarach, ymrwymodd pum ymddiriedolaeth GIG arall, ynghyd â Bwrdd Gofal Integredig (ICB) GIG Gogledd-ddwyrain Lloegr a Gogledd Cumbria, yn ffurfiol i leihau segura llonydd ar eu safleoedd.

Mae lleihau segura llonydd diangen wedi'i nodi fel cam gweithredu ym menter GreenED y Coleg Brenhinol Meddygaeth Argyfwng, sy'n anelu at leihau effaith amgylcheddol meddygaeth argyfwng a chynnal safonau uchel o ofal cleifion ar yr un pryd.[75]

**GreenED**

Menter dan arweiniad y Coleg Brenhinol Meddygaeth Argyfwng (RCEM) i helpu Adrannau Brys i fesur a lleihau eu heffaith amgylcheddol, gan gynnal neu wella ansawdd a diogelwch gofal cleifion ar yr un pryd.

Gall Adrannau Brys fynd drwy dair lefel o fframwaith cynaliadwyedd ar eu cyflymder eu hunain, gan gymryd camau sy'n briodol i'w cyd-destun lleol. Os byddant yn llwyddo i gwblhau pob cam ar lefel benodol, byddant yn cael achrediad ffurfiol gan RCEM.

Mae GreenED yn rhoi pwyslais cryf ar newidiadau ymarferol sy'n briodol yn glinigol a all leihau allyriadau carbon ac effaith amgylcheddol heb beryglu gofal cleifion. Mae lleihau lefelau segura llonydd diangen gan gerbydau ac ambiwlansys yn rhan o'u hagenda cynaliadwyedd ehangach, yn enwedig mewn perthynas â lleihau llygredd aer lleol o amgylch adrannau brys a diogelu iechyd cleifion, staff ac ymwelwyr mewn ardaloedd lle mae lefelau uchel o gysylltiad â llygredd aer.

Mae GreenED ar agor i Adrannau Brys ledled y DU ac Iwerddon, gan gynnwys sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Mae Adrannau Brys ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Cymru) wedi cael eu cydnabod yn ffurfiol drwy'r rhaglen: gan gynnwys Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Ysbyty'r Tywysog Siarl, ac Ysbyty Tywysoges Cymru.

Dyfarnwyd statws Efydd GreenED i'r adrannau hyn, sy'n dangos bod safleoedd yng Nghymru yn gymwys i gymryd rhan yn y rhaglen a'u bod yn gwneud hynny.[76]

**Choked Up**

Ymgyrch aer glân a chyfiawnder cymdeithasol dan arweiniad pobl ifanc yw hon, a sefydlwyd yn 2020 gan fyfyrwyr chweched dosbarth Du a Brown sy'n byw ger rhai o ffyrdd mwyaf llygredig Llundain. Nod yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth o lygredd aer gwenwynig a thynnu sylw at effeithiau iechyd anghymesur llygredd sy'n gysylltiedig â thraffig ar gymunedau difreintiedig a lleiafrifol.

---

[75] NHS trusts join forces to sign no idling commitment outside of emergency departments :: Northumbria Healthcare NHS Foundation Trust; Introducing No Idling to Northumbria Healthcare
[76] greened.rcem.ac.uk

Mae'r ymgyrch yn fwyaf adnabyddus am ei defnydd o arwyddion tebyg i arwyddion ffordd mewn mannau â phroblemau llygredd, gan gynnwys negeseuon fel "Pollution Zone" a "Breathing Kills". Llwyddodd yr arwyddion hyn, ochr yn ochr ag ymgyrch gydgysylltiedig ar y cyfryngau cymdeithasol, i godi ymwybyddiaeth o effeithiau anghymesur llygredd aer. Denodd y fenter sylw'r cyfryngau cenedlaethol a helpodd i ddod â ffocws gwleidyddol a chyhoeddus ehangach i'r mater.[77]

[77] Choked Up | Join the Ultimate Youth Sports Camp

## Atodiad 2. Dulliau a negeseuon ymgyrchu

**Newid ymddygiad**

Nid yw ymwybyddiaeth bersonol o broblem o reidrwydd yn arwain at newid ymddygiad. Er y gall modurwyr ddeall bod segura llonydd yn niweidiol, efallai na fydd hyn ar ei ben ei hun yn ddigon i ddylanwadu ar eu gweithredoedd. Fel arfer, mae angen cymhelliant ar bobl i newid eu hymddygiad. Felly, dylai unrhyw ymgyrch gwrth-segura wneud mwy na chodi ymwybyddiaeth a dangos y manteision clir, personol ac uniongyrchol a ddaw o ddiffodd yr injan.

Mae pobl yn fwy tebygol o newid ymddygiad:

- pan fyddant yn deall sut mae eu gweithredoedd yn gwneud gwahaniaeth
- pan fydd yr hyn y mae angen iddynt ei wneud yn syml ac yn gyraeddadwy
- pan fydd mantais bersonol neu gymdeithasol glir (er enghraifft, arbed arian, lleihau cysylltiad â llygredd, neu ddiogelu iechyd plant)

Fel arfer, mae pobl yn ceisio sicrhau cysondeb rhwng eu credoau a'u gweithredoedd. Gall annog unigolion i wneud ymrwymiad cyhoeddus neu bersonol, fel llofnodi addewid, helpu i atgyfnerthu newid ymddygiad. Gall fod yn ffordd dda o ysgogi pobl i ddiffodd eu hinjan gan ei fod yn tynnu llinell glir rhwng eu credoau a'r camau penodol y gallant eu cymryd i gefnogi eu credoau.

Gall hyn fod yn fwy heriol o ran agweddau ac ymddygiad amgylcheddol, yn enwedig pan fydd unigolion yn teimlo bod gweithredoedd yn anghyfleus neu nad ydynt yn cael fawr o effaith. Nid yw cefnogaeth i leihau allyriadau bob amser yn trosi'n gamau gweithredu sy'n llai niweidiol i'r amgylchedd, e.e. hedfan. Un o'r rhesymau dros hyn o bosibl yw gwybodaeth amgylcheddol wrthgyferbyniol neu aneglur a'r ffaith nad yw bob amser yn hawdd deall pa gamau y gallwn eu cymryd a fydd yn gwneud gwahaniaeth heb wneud newidiadau radical i'n bywydau. Felly, dylai negeseuon ymgyrchu fod yn glir, yn gyson ac yn ymarferol, gan osgoi iaith rhy dechnegol neu gymhleth.

Mae ymchwil wedi dangos bod gweithgarwch gwrth-segura fwyaf effeithiol pan gaiff ei gyflwyno fel rhan o becyn cydgysylltiedig o addysg, ymgysylltu a (lle bo angen) gorfodi.

Efallai yr hoffai awdurdodau lleol ystyried:

- meithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth cyn cyflwyno mesurau gorfodi
- defnyddio negeseuon cyson ar bob sianel
- atgyfnerthu negeseuon drwy ymyriadau gweladwy, ailadroddus (e.e. arwyddion, ymgyrchoedd ysgol, y cyfryngau)
- cefnogi newid parhaus mewn ymddygiad

**Negeseuon:**

Ystyriwch negeseuon sydd:

- yn gadarnhaol ac nad ydynt yn wrthdrawiadol
  e.e. “Diffoddwch eich injan i wella ansawdd yr aer o’ch cwmpas”, “Diffoddwch yr injan i arbed arian”, “Diffoddwch Eich Injan i gael aer glanach”
- yn glir ac yn canolbwyntio ar gamau i'w cymryd
  e.e. “Diffoddwch eich injan pan fydd eich cerbyd yn llonydd”
- yn berthnasol i'r ardal leol, yn enwedig ger mannau lle mae segura llonydd yn broblem, fel ysgolion neu leoliadau gofal iechyd
- yn osgoi negeseuon negyddol (e.e. “ni chaniateir segura”) lle bo hynny'n bosibl. Yn lle hynny, defnyddiwch iaith gadarnhaol fel: “parth dim segura”, neu “mae gyrwyr cyfrifol yn diffodd eu hinjan pan fyddant ar stop”

Pan fydd pwerau gorfodi ar waith, gall negeseuon hefyd dynnu sylw at y canlynol:

- bod segura llonydd yn drosedd
- ond bod y ffocws o hyd ar annog a newid ymddygiad yn gyntaf

**Addysg a chodi ymwybyddiaeth**

Efallai y bydd awdurdodau lleol am ddefnyddio ystod o ddulliau ategol.

### Ymgysylltu â'r cyhoedd:

- cynnal diwrnod i godi ymwybyddiaeth o fesurau gwrth-segura a dosbarthu deunyddiau addysgol
- dosbarthu taflenni neu ddeunyddiau addysgol i yrwyr, yn enwedig mewn mannau lle mae segura llonydd yn broblem hysbys
- sicrhau bod deunyddiau ymgyrchu ar gael mewn llyfrgelloedd a mannau cyhoeddus eraill, wrth bympiau petrol neu arosfannau bysiau
- ystyried darparu llwybr syml i alluogi'r cyhoedd i godi pryderon am broblemau segura llonydd mynych. Gall adroddiadau gan y cyhoedd helpu i nodi lleoliadau â blaenoriaeth ar gyfer gwaith ymgysylltu, monitro a, lle bo angen, gamau gorfodi wedi'u targedu
- ystyried creu tudalen we bwrpasol gydag adnoddau defnyddiol a datganiadau a gwybodaeth ffeithiol
- cyn gorfodi, gellid rhoi taflenni gwybodaeth i yrwyr sy'n segura yn eu cerbydau
- mae gweithgarwch gorfodi yn fwy tebygol o fod yn effeithiol pan gaiff ei gynnal fel rhan o ymgyrch i hysbysu ac addysgu'r cyhoedd

### Gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu

- gweithio gydag ysgolion i annog addewidion gan rieni/gofalwyr ac ymgyrchoedd dan arweiniad disgyblion
- cyhoeddi erthyglau mewn cylchlythyrau ysgol neu yn y cyfryngau lleol
- ystyried gosod arwyddion ar byst mewn ardaloedd lle mae segura llonydd yn broblem hysbys.

Datgelodd ymchwil gan Gyngor Bwrdeistref Colchester fod arwyddion ar ochr y ffordd yn ffordd gost-effeithiol a syml o ddylanwadu ar ymddygiad gyrwyr, ac y gellir gweld canlyniadau ar unwaith.

### Ymgysylltu â busnesau ac arweinyddiaeth fewnol

- ymgysylltu â busnesau lleol fel bwytai gyrru drwodd, safleoedd tacsi, gwasanaethau dosbarthu i ofyn am eu cymorth i fynd i'r afael â segura llonydd diangen
- annog busnesau i osod arwyddion/sticeri/posteri a mabwysiadu arferion gwrth-segura
- annog camau i ddatblygu polisi gwrth-segura ar gyfer cerbydau sy'n eiddo i'r awdurdod lleol a cherbydau a ddefnyddir o dan gontract gan y rhai sy'n cyflenwi gwasanaethau i'r awdurdod

**Gwybodaeth ategol ar gyfer ymgyrchoedd**

Wrth ddylunio eich deunyddiau ymgyrchu, meddyliwch am gynnwys gwybodaeth glir, ffeithiol a syml i gefnogi newid ymddygiad.

**Enghraifft:**

- mae segura llonydd yn gwneud eich cerbyd yn llai ynni-effeithlon
- mae segura llonydd yn costio arian i chi
- mae segura llonydd yn creu llygredd aer a sŵn diangen
- mae segura am fwy na 10 eiliad yn defnyddio mwy o danwydd ac yn cynhyrchu mwy o allyriadau na stopio ac ailgychwyn eich injan
- nid yw diffodd yr injan a'i hailgychwyn yn difrodi cerbydau modern
- mae injans yn cyrraedd y tymheredd gweithredu optimwm yn fwy effeithiol pan fyddant yn cael eu gyrru na phan fyddant yn segur
- dim ond pan fyddant ar y tymheredd cywir y mae trawsnewidyddion catalytig yn gweithredu'n effeithlon – efallai na fydd cerbyd sy'n segura yn cyrraedd y tymheredd optimwm ac, felly, bydd mwy o lygredd yn cael ei allyrru drwy'r egsôst
- mae batris cerbydau modern wedi'u cynllunio i ymdopi ag ailgychwyn yn aml
- bydd systemau gwresogi yn y cerbyd yn gweithredu'n fwy effeithiol pan fydd cerbyd yn cael ei yrru i gyrraedd y tymheredd cywir o'i gymharu â segura
- nid yw teithwyr cerbydau wedi'u diogelu rhag llygredd aer – mae ymchwil yn dangos y gall pobl y tu mewn i gerbydau ddod i gysylltiad â lefelau uchel o lygredd, sy'n golygu y gall segura llonydd effeithio ar yrwyr a theithwyr yn ogystal â cherddwyr

Enghreifftiau o negeseuon cryno syml a all fod yn effeithiol:

- nid oes unrhyw werth i segura llonydd
- ceisiwch leihau llygredd
- mae segura llonydd yn gwastraffau tanwydd ac arian ac yn niweidio iechyd
- mae segura llonydd yn drosedd
- gwnewch ein strydoedd yn lle mwy pleserus i gerdded, olwyno, beicio a chwarae

**Cysylltu â gorfodi**

Lle cyflwynir mesurau gorfodi, ystyriwch wneud hynny'n raddol:

- dechreuwch drwy addysgu a chodi ymwybyddiaeth
- symudwch ymlaen at orfodi drwy gyhoeddi'r dyddiad cychwyn yn glir a rhyddhau cyhoeddiadau wedi'u hamseru yn y cyfnod cyn hynny
- darparwch wybodaeth glir am y gofynion cyfreithiol a'r cosbau
- parhewch i atgyfnerthu negeseuon ochr yn ochr â mesurau gorfodi i gynnal unrhyw newidiadau mewn ymddygiad

## Atodiad 3. Datganiad polisi gwrth-segura at ddefnydd busnesau

**Polisi gwrth-segura**

Mae **[mewnosod enw'r busnes]** yn cydnabod yr effeithiau amgylcheddol posibl sy'n deillio o weithrediadau fflyd ac yn ymrwymo i gymryd camau rhesymol i gyfyngu ar allyriadau cerbydau. Cydnabyddir hefyd, o dan rai amgylchiadau, bod segura llonydd yn drosedd.

Byddwn yn gofyn i bob aelod o staff sy'n gyrru ar ran y cwmni osgoi cadw'r injan i redeg yn ddiangen pan fydd y cerbydau y maent yn eu defnyddio yn llonydd (ac eithrio pan fyddant yn llonydd oherwydd traffig). Pan na ddisgwylir i gerbyd gael ei ddefnyddio am gyfnodau o fwy na dwy funud, dylai'r staff ddiffodd yr injan.

Nid yw'r rheol hon yn gymwys os bydd angen rhedeg yr injan am resymau diogelwch, at ddibenion gwasanaethu a chynnal a chadw, neu i ddefnyddio cyfarpar sy'n cael ei bweru gan yr injan.

Mae'r polisi hwn yn gymwys i bob aelod o staff sy'n gyrru ar fusnes y cwmni gan ddefnyddio cerbydau fflyd neu gerbydau preifat a ddefnyddir at ddibenion gwaith.

Disgwylir i'r polisi hwn ddod â sawl mantais allweddol i'r cwmni, gan gynnwys:

- Defnyddio llai o danwydd a chostau gweithredu is
- Llai o effaith amgylcheddol drwy lefelau is o allyriadau a sŵn cerbydau diangen
- Cydymffurfio â Rheolau'r Ffordd Fawr a deddfwriaeth berthnasol
- Osgoi cosbau am segura llonydd
- Llai o gysylltiad â llygredd aer yn y caban
- Mwy o ddiogelwch
- Delwedd gyhoeddus well

## Atodiad 4. Taflen i rieni a gofalwyr plant ysgol

(Gellir defnyddio'r lle hwn i atgynhyrchu fersiwn PDF o'r daflen)

Dylai'r daflen gynnwys:

- Cod QR gyda dolen i wefan yr ymgyrch
- Cyfeiriad syml iawn at allyriadau ac effeithiau ar iechyd
- Apêl am gefnogaeth i'r plant sy'n gweithio'n galed i wneud yr ymgyrch yn llwyddiant
- Dylid diffodd yr injan os bydd y cerbyd yn debygol o fod ar stop am ddwy funud neu fwy.
- Gall ansawdd yr aer y tu mewn i gerbydau fod yn waeth nag y tu allan.
- Arbed tanwydd ac arian
- Lleihau cysylltiad plant ag allyriadau cerbydau niweidiol.
- Strydoedd tawelach.

Mae taflenni lliwgar sy'n cynnwys nifer fach o negeseuon byr, clir a gyflwynir mewn ffont mawr, anffurfiol yn fwy tebygol o ddal sylw pobl.

Enghraifft:

- Pan fyddwch yn stopio, diffoddwch yr injan
- Diffoddwch eich injan – aer glanach i'n plant
- Gadewch i ni gadw gatiau ein hysgol yn glir o geir segur

## Atodiad 5. Templed arsylwadau ysgol

Ysgol:

Enw(au)'r disgybl:

Enw(au)'r athro:

Dyddiad:

| **Math o gerbyd**<br><br>(gweler y rhestr isod) | **Amser y gwelwyd cerbyd yn segura**<br><br>(yr amser pan welwyd cerbyd yn segura gyntaf) | **Amser y daeth y segura i ben** | **Lefelau sŵn**<br><br>(gweler y rhestr isod) | **Cyfanswm amser segura** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Math o gerbyd:

A – Car bach

B – Car canolig

C – Cerbyd Cyfleustod Chwaraeon (SUV)

D – Fan

E – Lori

Lefelau sŵn:

1 – Swnllyd iawn

2 – Swnllyd ond heb fod yn rhy uchel

3 – Eithaf tawel

## Atodiad 6. Enghraifft o hysbysiad ar gyfer cylchlythyr ysgol

**Erthygl 1 Cyn yr ymgyrch**

Mae'n bleser gennym lansio prosiect newydd cyffrous sy'n edrych ar allyriadau cerbydau, a sut y gellir lleihau'r rhain er budd iechyd a llesiant pawb.

Bydd ein partneriaid, **[mewnosod enw]**, yn ymuno â'n disgyblion Blwyddyn x i gyflwyno cyfres o wersi ar bwysigrwydd aer glân a beth mae hyn yn ei olygu i'n hiechyd a'n llesiant. Bydd y gwersi'n cynnwys ymarfer sy'n canolbwyntio ar gasglu data bywyd go iawn a chynnal ymgyrch i helpu i leihau llygredd aer. Wedi hynny, bydd y disgyblion yn asesu i ba raddau y mae eu hymdrechion wedi arwain at welliannau yn ansawdd yr aer a sut mae hyn o fudd i ni i gyd.

Bydd rhagor o wybodaeth yn dilyn wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

**Erthygl 2 Yng nghanol yr ymgyrch**

Yn ein cylchlythyr ar **[mewnosod dyddiad]** fe wnaethom hysbysu rhieni a gwarcheidwaid am brosiect newydd cyffrous a oedd yn ceisio annog disgyblion i ddeall effeithiau allyriadau cerbydau a sut y gellir lleihau'r rhain.

Mae ein disgyblion Blwyddyn X wedi bod yn cynnal arsylwadau amser real y tu allan i'r ysgol, gan gofnodi achosion lle mae cerbydau wedi'u parcio gyda'u hinjan yn rhedeg. Yr enw ar hyn yw ‘segura llonydd’ ac mae'n cyfrannu at sŵn diangen a llygredd aer sy'n effeithio ar bobl eraill ar y stryd, gan gynnwys plant ysgol a theithwyr y cerbydau eu hunain.

Mae disgyblion wedi bod yn cymryd nodiadau dienw (dim gwybodaeth a allai olygu bod modd adnabod gyrwyr unigol) o achosion lle mae segura llonydd wedi bod yn digwydd, gan gynnwys y math o gerbyd sy'n segura, am ba hyd mae'r injan yn cael ei gadael i redeg tra bod cerbydau wedi'u parcio, a faint o sŵn roedd y cerbydau'n ei wneud. Mae'r wybodaeth hon wedi creu ‘llinell sylfaen’, gan alluogi'r disgyblion i ddatblygu darlun o'r graddau y mae cerbydau'n segura y tu allan i'r ysgol yn ystod amser casglu plant o'r ysgol yn y prynhawn.

Ar gyfer cam nesaf y prosiect, mae'r disgyblion yn datblygu deunyddiau ymgyrchu i dynnu sylw gyrwyr at y niwed sy'n cael ei greu gan segura llonydd diangen a'u hannog i ddiffodd eu hinjan.

Cadwch lygad am fwy o fanylion am yr ymgyrch yn fuan!

**Erthygl 3 – Yng nghanol yr ymgyrch**

Mae'n bleser gennym roi diweddariad arall ar ein hymgyrch allyriadau cerbydau y mae ein disgyblion Blwyddyn X wedi bod yn ei chynnal gyda chymorth gan ein partneriaid yn **[mewnosod enw]**. Gobeithio eich bod eisoes wedi gweld ein baner ‘gwrth-segura’ newydd sydd wedi'i gosod y tu allan i'r ysgol.

Mae'r disgyblion wedi bod yn dysgu am effeithiau allyriadau cerbydau sy'n segura'n llonydd, gan gynnwys sŵn, ar ein hiechyd a'n llesiant, a sut y gallwn annog gyrwyr i

ddiffodd eu peiriannau pan fyddant wedi parcio. Gall hyn leihau sŵn a llygredd aer o amgylch ein hysgol (ac mewn mannau eraill) ar unwaith a gall hefyd arbed tanwydd ac arian.

Mae ein disgyblion wedi paratoi cyfres o ddyluniadau lliwgar er mwyn helpu i rannu'r neges â gyrwyr. Bydd rhieni a gwarcheidwaid yn derbyn copi o'r daflen wybodaeth a cherdyn addewid yn fuan yn eu gwahodd i ymrwymo i ddiffodd eu hinjan pan fyddant wedi parcio. Byddai'r staff addysgu, a'r plant, yn ddiolchgar iawn o dderbyn addewidion gan rieni a gwarcheidwaid, a byddwn yn cynnal cystadleuaeth fach i weld pa ysgol sy'n casglu'r nifer mwyaf.

Bydd rhagor o fanylion ar gael maes o law.

**Erthygl 4 – Diwedd yr ymgyrch**

Rydym bellach wedi cyrraedd diwedd ein prosiect segura llonydd ac rydym yn falch iawn o'r brwdfrydedd y mae'r ymgyrch wedi'i danio ymhlith y disgyblion a'r gefnogaeth gan rieni a gwarcheidwaid hefyd.

Casglodd y disgyblion **[mewnosod rhif]** o gardiau addewid gan rieni a gwarcheidwaid sydd wedi ymrwymo i ddiffodd eu hinjan pan fyddant wedi parcio.

Mae ein disgyblion ym Mlwyddyn X wedi cynnal cyfres ddilynol o arsylwadau ac mae'r data wedi'u cymharu â'r sefyllfa cyn yr ymgyrch. Mae'r disgyblion wedi cofnodi llai o achosion o gerbydau'n segura'n llonydd y tu allan i'r ysgol ac wedi nodi gostyngiadau mewn allyriadau, gan ddysgu beth mae hyn yn ei olygu i'n hiechyd a'n hamgylchedd.

Diolch yn fawr iawn i bob rhiant a gwarcheidwaid am eu cefnogaeth gyda'r prosiect hwn, ac i'n disgyblion am gymryd rhan mor frwdfrydig!

Efallai y bydd awdurdodau lleol am sicrhau bod negeseuon yn esbonio'n glir beth sy'n cyfrif fel trosedd segura llonydd ac yn gwahaniaethu rhwng sefyllfaoedd cyfreithlon ac anghyfreithlon.

Efallai yr hoffech hefyd sicrhau bod deunyddiau ymgyrchu yn adlewyrchu'r cyd-destun lleol penodol, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r ffynonellau mwyaf cyffredin o segura llonydd.

## Atodiad 7. Templed datganiad i Lywodraeth Cymru

Cangen Ansawdd Aer, Sŵn a Seinweddau
Is-adran Diogelu'r Amgylchedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Datganiadau Cosb Benodedig am Droseddau Segura Llonydd ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 20__ hyd at 31 Mawrth 20__**

**Cais am wybodaeth am gosbau penodedig**

**Manylion yr awdurdod lleol**

| | |
|---|---|
| Awdurdod lleol | |
| Cod post | |
| Enw cyswllt a theitl y swydd | |
| Cyfeiriad e-bost cyswllt | |
| Rhif ffôn cyswllt | |

Dychwelwch i PolisiAnsawddAer@llyw.cymru

Dylai'r ffigurau isod gynnwys cosbau penodedig a gyflwynwyd gan swyddogion awdurdodedig yr awdurdod lleol.

| | |
|---|---|
| 1. Nifer y cosbau penodedig a gyflwynwyd | |
| 2. Nifer y cosbau penodedig a dalwyd | |
| 3. Nifer yr achosion o beidio â thalu a aeth i'r llys | |
| 4. Nifer yr achosion o beidio â thalu sy'n aros am gamau llys | |
| 5. Nifer yr achosion o beidio â thalu lle nad oes camau llys pellach yn cael eu cymryd | |
| 6. Swm a gasglwyd (£) | |
| 7. Nifer y llythyrau rhybudd a gyflwynwyd (dewisol) | |

1. Yn y rhes hon nodwch gyfanswm y cosbau penodedig a gyflwynwyd yn erbyn y drosedd berthnasol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 20XX hyd at 31 Mawrth 20XX.

2. Yn y rhes hon nodwch gyfanswm y cosbau penodedig a dalwyd yn erbyn y nifer a gyflwynwyd yn rhes 1.

3. Yn y rhes hon, nodwch nifer yr achosion sydd wedi mynd i'r llys i fynd ar drywydd y methiant i dalu cosbau penodedig a gyflwynwyd yn rhes 1.

4. Yn y rhes hon, nodwch nifer yr achosion sy'n aros am gamau llys yn erbyn methiant i dalu cosbau penodedig a gyflwynwyd yn rhes 1.

5. Yn y rhes hon nodwch nifer yr achosion lle na chymerir unrhyw gamau pellach yn erbyn cosbau penodedig a gyflwynwyd yn rhes 1, lle nad yw'r gosb benodedig wedi'i thalu.

6. Yn y rhes hon nodwch gyfanswm yr incwm a wnaed o'r cosbau penodedig a gyflwynwyd yn rhes 1. Dim ond incwm o gosbau penodedig y dylid ei gynnwys ac nid unrhyw gostau llys. Os na fydd nifer yr hysbysiadau cosb benodedig a gyflwynwyd (rhes 1) yn gyson â'r rhesi eraill (2, 3, 4 neu 5), rhowch esboniad yn y gofod o dan y tabl.

7. Mae hyn yn ddewisol.

Dychwelwch y Ffurflenni erbyn 31 Awst 20xx i: yn y llinell bwnc: Datganiad Cosb Benodedig (enw eich Awdurdod Lleol) 20XX/XX

## Atodiad 8. Dolenni i ragor o adnoddau (DU a rhyngwladol)

**Llywodraeth Cymru**

Ansawdd Aer yng Nghymru Yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd LLYW.CYMRU

Cynllun sŵn a seinwedd i Gymru 2023 i 2028 | LLYW.CYMRU

Cerdded a beicio LLYW.CYMRU

**Tystiolaeth ac ymchwil ymddygiadol**

Cleaning up our acts: Psychological interventions to reduce engine idling and improve air quality

Consumer Guide to Reducing Vehicle Idling

Idling Action Research – Review of Emissions Data, Tim Barlow and Olivia Cairns, TRL Limited, 2020

Using behavioural insight to improve air quality in the London Borough of Merton

The invisible threat: how we can protect people from air pollution and create a fairer, healthier society

What traffic fumes do to your children – Infographic

10 Reasons to Turn Off an Idling Car | Sustainable America

**Enghreifftiau o ymgyrchoedd ac ymarfer lleol (DU)**

**Cymru**

Living Streets Cymru

Cais i fodurwyr ddiffodd injans eu ceir ger ysgolion i helpu ansawdd aer - Abertawe

Welsh Government calls upon schools across Wales called to create school travel plans | tenby-today.co.uk

**Lloegr**

Anti-idling | Cheshire West and Chester Council

City of York Council Kick the Habit campaign

FACT-Leaflet.pdf

Engine idling leaflet (Westminster City Council).pdf

**Yr Alban**

School Streets | Dundee City Council

Mountfleurie Primary School's active travel success | Fife Council

Campaign continues to urge everyone to stop engine idling - South Lanarkshire View

East Central Scotland Vehicle Emissions Partnership: Switch off and breathe campaign

Home 2026 - Switch off and Breathe

**Gogledd Iwerddon**

Clean Air Primary School Campaign

Air Quality Baseline survey

Air quality and idling school project - lisburncastlereagh.gov.uk

Engine Off, Prevent the Cough

Turn your engine off, prevent the cough! — Holywood Primary School

Engine off! Prevent the Cough!

**Aml-ranbarth**

PEACE-Air Partnership for Evidence and Action on Clean Air

Transform Our World: Anti-idling campaign resource

Your guide to putting a stop to idling engines in your neighbourhood

**Grwpiau ymgyrchu, elusennau a sefydliadau iechyd**

Ansawdd Aer - Iechyd Cyhoeddus Cymru

British Heart Foundation

Cyfeillion y Ddaear

Walk Wheel Cycle Trust (Sustrans gynt)

Flight Free UK

**Enghreifftiau ac adnoddau rhyngwladol**

Idle free Schools – Implementing an idling reduction campaign

Idle free Schools - Making it a student project

Idle free Schools - Campaign schedule

Idle free Schools - Toolkit for a Healthy Environment

Green Schools – Sustainable Future

No idling: Middle years/Secondary toolkit

Regional District of Central Okanagan: Idling Reduction Behavioural Insights

Sacramento County California – Idle-free Schools

Tools for reducing idling – Turn It Off

Idle Free Schools Presentation (US EPA)